# Y Dinesydd

Mehefin 2012 Rhif 368 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# Hard Côr – *yn cymysgu canu gwerin, bît-bocsio a rapio*

**Sefydlwyd côr newydd arloesol gan Ganolfan Mileniwm Cymru yn ddiweddar. Ond tybed a fydd yn plesio pawb? Bu'r *Dinesydd* yn ffodus i gael cyfweliad egscliwsif gyda un o gynrychiolwyr y côr.**

**Sut fyddech chi'n disgrifio Hard Côr i ddarllenwyr *Y Dinesydd*?**

Mae gan y mwyafrif o aelodau'r côr gefndir côr traddodiadol, ond mae ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o rywbeth *gwahanol*. Canu corawl traddodiadol yw hanfod y côr, ond bydd y caneuon traddodiadol yn cael haen newydd o hip-hop, sy'n cynnwys bît-bocsio a MC-io.

**Beth yw bît-bocsio a rapio?**

Mae bît-bocswyr [*beatboxers*] yn dynwared sŵn offerynnau gyda'u cegau, a chreu rhythmau sy'n cynnwys elfennau fel drymiau, bas, offerynnau gwahanol, sŵn record yn cael ei grafu, a effeithiau sain, a hynny i gyd *ar yr un pryd!* Mewn gwirionedd, mae'r bît-bocsiwr fel fersiwn dynol o record. Mewn cerddoriaeth bop, rapio a MC-io yw'r grefft o adrodd neu siantio geiriau sy'n odli.

**Byddai rhai yn dadlau bod ceisio priodi diwylliant Eingl-Americanaidd rap a chanu gwerin yn glastwreiddio diwylliant yr henwlad. Beth yw eich ymateb i hyn?**

Cwestiwn da: Beth yw diwylliant? Dwi'n tybio ei fod yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Er enghraifft, dwi'n rhan o ddiwylliant Cymraeg Hip-hop, a bydd aelod arall o'r côr o ddiwylliant corawl Cymraeg, ond trwy Hard Côr rydyn ni'n un.

Er bod gwreiddiau rap yn America, mae hefyd yn boblogaidd ledled y byd, ac mae gan Gymru nifer sylweddol o artistiaid sefydledig yn y maes. Gall MC da gyflwyno ei waith yn ei arddull ei hun. Felly dylai MC Cymraeg swnio fel MC Cymraeg, a nid fel un o America. Dyma beth sy'n gwneud rhai o MC-wyr y wlad yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru yn union fel mae unrhyw ffurf arall o gerddoriaeth y wlad. Dim ond pennod newydd ydyw. Mae agweddau o



*Jason Camilleri (ail o'r chwith) yn hyfforddi Hard Côr*

gerddoriaeth traddodiadol Gymreig sydd heb newid am ganrifoedd, ac er ein bod ni am gael gryn effaith, dydw i ddim yn rhagweld y byddwn yn cael effaith ddrwg ar ddiwylliant traddodiadol Cymru.

**Beth sydd ar y gweill i Hard Côr yn y dyfodol?**

Ar ôl lansiad y côr, byddwn yn treulio amser yn y stiwdio yn recordio, yn gweithio ar waith traddodiadol gwerin Cymraeg wedi'i ailgymysgu wrth sicrhau ei bod yn cadw'n driw at ein gwreiddiau, ond ar ôl hynny pwy a ŵyr? Yn sicr byddwn ni'n falch o gael cyfle i berfformio yn ystod yr Eisteddfod yn y dyfodol yn ogystal â gweithio'n galed tuag at fwy o berfformiadau cyhoeddus.

**Mae croeso cynnes iawn i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno. I unrhyw un sydd â diddordeb, neu am ragor o wybodaeth cysylltwch â *jason.camilleri@wmc.org.uk*.**

**Bydd perfformiad cyntaf Hard Côr ar 24 Gorffennaf yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 6.45pm ar Lwyfan Y Lanfa, cyn sioe agoriadol *Sister Act*, y sioe o'r West End. Croeso mawr i bawb!**

## Cyfarfod Blynyddol Y Dinesydd

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Dinesydd ar **27 Mehefin** am 7 o'r gloch yng Nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina a gwahoddir holl ddarllenwyr y papur i ddod i'r Cyfarfod i fynegi barn a chefnogaeth i'r grŵp bychan o wirfoddolwyr sy'n cadw'r fflam ynghyn o fis i fis. Mae angen trysorydd newydd ar bwyllgor y papur hefyd a felly os medrwch gynnig eich gwasanaeth, rhowch wybod.

# Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
**Dafydd Saer**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Eleri Melhuish**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf erbyn 27 Mehefin i:
15 Erw Las, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 1NL
Ffôn: 07877264727
eleri_melhuish@hotmail.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


# *Gair wrth y Golygydd*



Ar ôl bod yn byw yng ngorllewin Cymru am ddeng mlynedd, rhaid dweud ei bod yn bleser bod nôl yng Nghaerdydd. Tra'n alltud, taerais na fyddwn yn dychwelyd yma fyth: ar bob ymweliad, roedd y traffig wedi gwaethygu, a'r 'datblygiadau' yn fy llethu – roedd yn drist gennyf weld yr hen strydoedd a'r hen gymunedau yn cael eu chwalu, a'r siopau mawrion yn lladd y siopau bychain.

Ond wedi dychwelyd, bûm yn ddigon ffodus i fyw'n agos at yr afon Taf. Yr afon hon a fu'n gyfrifol am enedigaeth y ddinas i bob pwrpas – sefydlwyd caer Rufeinig a chastell Normanaidd ger ei glannau, ac yn ddiweddarach dilynwyd ei llwybr gan y diwydiant glo – digwyddiadau hanesyddol tu hwnt i reolaeth y trigolion brodorol Cymreig, wrth gwrs. Mae'r Rhufeiniaid, y Normaniaid a'r diwydiant glo oll wedi mynd, ond deil yr afon i lifo, gan ddwyn bywyd i'r ddinas o hyd, fel gwythïen yn dwyn gwaed. Bellach mae yna lwybr yn ei dilyn am ran sylweddol o'i thaith, o fewn tafliad carreg i'm cartref yn yr Eglwys Newydd.

Gallaf fyw bywyd llawn yn y brifddinas, gan ddefnyddio'r llwybr hwn i fynd i bob man, bron. Ar gefn beic gellir seiclo yn syth i ganol y dref heb weld yr un car na'r un golau traffig. Mae nifer o lwybrau ym Mharc Soffia, Caeau Llandaf, Coedwig Gabalfa, Melingruffudd a Fferm y Fforest sydd bron a bod yn hollol wledig – does dim angen gadael y ddinas i brofi'r heddwch hyn, a does dim angen car chwaith!

Os cewch eich hun yn Fferm y Fforest, gellwch bicio am ymborth yn weddol ddidrafferth naill ai i Asda yn Coryton (er na fuaswn yn argymell yr hyn a gynigir fel bwyd yn y fangre hon i'm gelyn pennaf), neu i dafarn yr Hollybush, sydd wastad yn llawn – yn rhannol oherwydd y prisiau ardderchog. Gellir cael powlenaid 'ddiwaelod' o hufen ia am lai na £2. Hwyrach os ewch chi yno a chrybwyll i chi ddarllen am y cynnig ar dudalennau'r *Dinesydd*, y cewch hufen ia am ddim – ond hwyrach hefyd y cewch eich hel oddi yno yn weddol handi.

Rhaid canmol Bute am ddal ei afael ar y parciau o gwmpas yr afon a'u traddodi at ddefnydd y cyhoedd, yn hytrach na gwerthu'r tir ar gyfer adeiladu. A rhaid canmol ar y sawl sydd wedi gwarchod a datblygu'r arlwy dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddarparu caffis a llwybrau beic a denu mwy o bobl i'w mwynhau. Mae hefyd yn beth ardderchog bod gan drigolion Caerdydd yr hawl bellach i gael mynediad i Gastell Caerdydd yn rhad ac am ddim – am y tro cyntaf, o bosib, ers tua 2,000 o flynyddoedd (www.cardiffcastle.com)! A ninnau ynghanol haf gogoneddus arall yn y brifddinas, manteisiwch oll ar ei harddwch yn yr awyr agored! Ymlaen fo'r nod!

### Y Dinesydd yn hwylio i'r 21ain ganrif ar Wyneplyfr/Facebook

Yn rhinwedd fy ngwaith fel Golygydd y Mis, rhoddais neges ar Wyneplyfr yn holi am sgandal neu newyddion, a chwiliais am *Y Dinesydd* ar Weplyfr. Oes, mae ganddo bresenoldeb yno, ond nid yw wedi cydio yn nychymyg y Gwyneplyfrddarllenwyr eto, a does yna ddim gwybodaeth heblaw'r nodyn anghywir fod y papur i'w gael yn rhad ac am ddim. Wrth i ni fynd i'r wasg, dim ond un person sydd yn 'hoffi' *Y Dinesydd* (mae gwahoddiad i Weplyfrddarllenwyr 'hoffi' popeth ar Gweplyfr, i'r sawl ohonoch na sydd yn ymwybodol o hynny). Felly, Ddinesyddion, beth am ein helpu i symud gyda'r amseroedd: heidiwch i dudalen Wyneplyfr y papur, rhannwch eich hanesion cyffrous yno, a lawrlwythwch luniau difyr o'ch ffonau 'i' dot.

**Dafydd Saer**
Golygydd y Mis

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**WELSH'S FRUIT & VEG**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Cyngerdd olaf Anne

*Ers deng mlynedd ar hugain mae Anne Innes wedi bod yn trefnu cyngherddau i godi arian i'r elusen Sefydliad y Galon, ac yn y cyfnod hwnnw fe lwyddodd i godi ymhell dros £100,000. Ond y cyngerdd yn Ysbyty'r Waun ar 28 Ebrill oedd ei holaf, a gofynnwyd iddi am ei hymateb i lwyddiant ysgubol y noson.*

Cyngerdd i ddathlu ac i ddiolch i bawb a fu mor gefnogol i mi dros y 30 blynedd diwethaf oedd hwn.



*Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn cyflwyno torch o flodau i Anne ar ddiwedd y Cyngerdd Dathlu*

Croesawyd pawb gan Wyn a Ceri, fy mhlant, a chafwyd noson fythgofiadwy – y gorau eto oedd barn pawb oedd yno. Mae fy niolch yn ddiffuant ac o waelod calon i'r rhai a'n diddanodd. Rhaid enwi Delyth Medi Lloyd sy'n gweithio mor frwd gyda Chôr Canna a Chôr Bechgyn Hŷn Glantaf. Rydw i'n siwr bod Delyth yn barod am ei gwely y noson honno wedi iddi arwain y ddau gôr mor gelfydd, a ni anghofiaf fyth eu perfformiad o "Anfonaf Angel" gan Robat Arwyn. A beth allaf ddweud am y ddau frawd Charlie a Harry Lovell-Jones? Dyma dalentau'r dyfodol! Dau frawd hynaws a oedd yn gwneud i'w hofferynnau ganu. Anodd oedd credu mai 13 a 15 oed oedd y ddau yma; roedd eu perfformiadau ar y ffidil, xylophone a'r piano yn anghredadwy a braint oedd cael eu clywed. Hoffwn ddiolch hefyd i Gareth Rhys Davies a Fiona Harrison am roi o'u hamser a'u doniau. Roedd yn anrhydedd i ni gael cwmni cantorion mor brofiadol o Opera Cenedlaethol Cymru. Amhosibl yw trosglwyddo fy niolch iddynt ar bapur, ond maen nhw'n gwybod yn iawn o edrych ar fy wyneb y noson honno eu bod wedi cyffwrdd â 'nghalon i. Mae 'na ddywediad sy'n dweud y dylid ceisio creu atgof bob dydd o'ch bywyd, a gwir yw dweud bod nifer o atgofion melys wedi'u creu y noson honno.

Yr oeddem wedi gwahodd dau westai arbennig iawn, sef Mr John McCafferty, y gŵr a gyflwynodd ei hun fel Albanwr gydag enw Gwyddelig, calon o Loegr a gwraig o Gymru. Ef sydd wedi byw hiraf yn Ewrop ar ôl cael trawsblaniad calon ac erbyn Hydref nesaf ef bydd wedi byw hiraf yn y byd, a hynny am 30 o flynyddoedd. Gwelwyd mai tipyn o gymeriad yw John a gwnaeth i bawb chwerthin trwy gymharu fy sgiliau codi arian â Dick Turpin, y Lleidr Penffordd! Roedd Hannah Clark yno hefyd. Cafodd hi drawsblaniad *piggy back* yn ddwy oed. Pan yn ddeuddeg oed cafodd drafferthion, a bu rhaid tynnu ei chalon newydd. Er mawr syndod, dechreuodd ei chalon ei hun weithio'n iawn ac erbyn hyn mae Hannah yn 19 mlwydd oed ac ym Mhrifysgol Morgannwg. Roedd y ddau yma yn ysbrydoliaeth i bawb a'u cyfarfu.



*John Mc Cafferty, yr Albanwr gydag enw Gwyddelig, calon o Loegr a gwraig o Gymru*

Trwy eich cefnogaeth i'r gyngerdd a'r rhoddion a anfonwyd ataf, codwyd y swm anhygoel o ryw £9,000. Bydd yr arian yn mynd tuag at apêl Mending Broken Hearts, a fydd yn ariannu'r gwaith ymchwil arloesol mewn meddygaeth atgynhyrchiol a rhoi gobaith newydd i filoedd o bobl sy'n dioddef o glefyd y galon. Yn y dyfodol y nod yw bod calon sydd wedi ei niweidio yn gallu gwella ei hun a na fydd trawiad ar y galon yn ddim byd mwy difrifol na thorri braich. Mae hwn yn swnio fel ffantasi ond gyda'ch cefnogaeth a'ch haelioni gall ddod yn realiti.



*Hannah Clark, sy nawr yn astudio yng Mhrifysgol Morgannwg*

Fel coron i'r noson cafwyd darlleniad o ddau englyn a ysgrifenwyd gan ddau Brifardd. Teimlais yn wylaidd eu bod wedi rhoi o'u hamser i'm cyfarch a byddaf yn trysori eu geiriau caredig am byth.

Do, Anne, fel gasglest ganweth – a thrwy hyn,
wrth roi o'th wasaneth,
fesul punt, fesul pob peth,
do, Anne, fe wnest wahanieth.

*Ceri Wyn*

Iddi hi rhown wên o hyd – iddi hi
rhown ein hiaith ni hefyd
i ddiolch am oes ddiwyd
yr hon sy'n galon i gyd.

*Mererid Hopwood*

Diolch o galon.

**Anne Innes**

menter caerdydd

**www.mentercaerdydd.org**
**029 20689 888**

## Tafwyl 2012

Am y seithfed flwyddyn yn olynol bydd Tafwyl yn digwydd yng Nghaerdydd rhwng 22–29 Mehefin 2012.

Am y tro cyntaf erioed ar 23 Mehefin bydd ffair yr ŵyl yn cael ei chynnal yng Nghastell Caerdydd fel rhan o ddigwyddiadau Gŵyl Caerdydd. Bydd stondinau amrywiol yn y ffair yn hyrwyddo cynnyrch Cymreig; yn ogystal â gweithdai a sesiynau llenyddol, cerdd, celf, coginio a drama. Bydd prif lwyfan a llwyfan acwstig gyda pherfformiadau byw gan artistiaid gwerin, roc a phop mwyaf llwyddiannus y sîn gerddoriaeth Gymraeg gan gynnwys Cowbois Rhos Botwnnog, Y Niwl, Alun Gaffey, Greta Isaac, Heather Jones, Yr Ods, Geraint Lovgreen, Meic Stevens, Mr Huw, Sen Segur, Dewi Pws, Colorama, Daniel Glyn, Stwnsh, Fflur Dafydd, a Hywel Gwynfryn, ymhlith eraill. Fedrwch chi fforddio *peidio* bod yno?

Ymysg yr uchafbwyntiau bydd sesiwn goginio gyda Bryn Williams, gweithdai chwaraeon gyda'r Urdd, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Cardiff Devils, gwledd o sesiynau llenyddol gyda beirdd Cymru, a rhaglen amrywiol o weithgareddau chwarae i blant.

Yn ogystal, bydd wythnos gyfan yn llawn dop o ddigwyddiadau Cymraeg ar draws y ddinas (22–29 Mehefin), yn amrwyio o gerddoriaeth byw, comedi, ffilm, teithiau hanes, digwyddiadau i ddysgwyr a gweithgareddau i blant meithrin.

Dilynwch ni ar **Facebook** a **Twitter**
**www.tafwyl.org**

## Bygi-Heini

Cwrs chwech wythnos newydd gyda Ffitrwydd Roz. Sesiynau o ymarferion amrywiol i gryfhau a thonio cyhyrau yn ogystal â cherdded hamddenol a chyflym. Yn dechrau bore dydd Llun, Mehefin 11 rhwng 10–11 y bore. Cost y cwrs yw £27.30 am chwe sesiwn.

## Dim gwasanaeth bws i Faes yr Eisteddfod

Diolch i'r rheiny ohonoch chi sydd wedi ymateb i geisiadau diweddar a dangos diddordeb mewn gwasanaeth bws i Faes yr Eisteddfod. Yn anffodus, am rhesymau tu allan i'n rheolaeth, ni fyddwn yn medru cynnal y gwasanaeth o Gaerdydd i'r Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

## Cwis *Y Mochyn Du*

Bydd cwis mis Mehefin yn rhan o ddathliadau Tafwyl – felly beth am drefnu dod â tîm? Kevin Davies fydd y cwisfeistr gwadd Nos Sul, 24 Mehefin yn y Mochyn Du am 8 y nos. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb!

## Gwyliau'r Haf

Bydd amserlen brysur ac amrywiol o weithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r haf gan gynnwys dau Gynllun Gofal, Sesiynau Chwarae Bwrlwm mewn chwech ysgol, Diwrnodau Hwyl yn y Parc, Gweithdai Chwaraeon a Gweithdai Gŵyl Ddysgu'r Haf i ddisbylion uwchradd. Bydd y wybodaeth i gyd ar ein gwefan yn fuan – mentercaerdydd.org.

## Cynllun Gofan yr Haf

Bydd y Fenter yn cynnal dau gynllun dros yr haf – un fel arfer yn Ysgol Treganna, ac un ar safle Ysgol Gyfun Glantaf. Bydd y safle newydd yng Nglantaf yn lle Ysgol Melin Gruffydd, gan nad yw'r ysgol ar gael i ni oherwydd gwaith i symyd lleoliad yr ysgol erbyn Medi 2012.

Bydd y Cynllun yn Glantaf ar agor am bedair wythnos tan ddydd Gwener 17 Awst a bydd Treganna ar agor am bump wythnos tan ddydd Gwener 24 Awst.Y gost fydd £17 y diwrnod ac yn ogystal ag amserlen brysur o weithdai, bydd trip bob dydd Mercher a dydd Gwener. Am fanylion pellach, ewch i wefan y Fenter – mentercaerdydd.org neu ebostiwch marirhys@mentercaerdydd.org.

## Facebook a Twitter

Cofiwch bod Menter Caerdydd yn diweddaru ein tudalen Facebook ac yn trydar yn ddyddiol – dilynwch ni am y newyddion diweddaraf am weithgarwch Menter Caerdydd.

**GŴYL IFAN**

**Caerdydd - Mehefin 15 – 17, 2012**

**PENWYTHNOS O DDAWNS!**

Nos Wener y 15fed, 8pm tan hwyr
**TWMPATH DAWNS**
Gan gynnwys sbot gan "yr Hennessys"
Gwesty'r Angel, Caerdydd

--oOo--

Dydd Sadwrn y 16eg
**DIWRNOD O DDAWNS**
o gwmpas Caerdydd a'r Bae
cysylltwch â: post@gwylifan.org

www.gwylifan.org

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Colofn G.R.

Yn ddiweddar bues i yn angladd Aur Roberts yn yr Hen Gapel yn Llanuwchllyn. Roedd hi'n ferch i'r diweddar Gynghorydd Tom Jones a sefydlodd Côr Godre'r Aran. Bu'n weithgar fel aelod o Bwyllgor Cymdeithas Cymru-Ariannin ac yn ymwelydd cyson â'r Wladfa dros y blynyddoedd gan groesawu llawer o ymwelwyr o'r Wladfa ar ei haelwyd. Merch y filltir sgwâr oedd hi a bu'n byw yn Llanuwchllyn ar hyd ei hoes ac yn fawr ei pharch yn yr ardal. Gwelir ei heisiau yn fawr gan ei theulu, ffrindiau a'r achos Patagonaidd.

Ar y ffordd adre o'r angladd, gan fod y tywydd yn digwydd bod yn heulog, penderfynais droi trwyn y car am y ffordd fynydd o Lanuwchllyn dros Fwlch y Groes ac i lawr i Ddinas Mawddwy. Roedd y gwanwyn yn y tir a mynydd yr Aran a'r wlad o gwmpas yn edrych yn hardd dros ben ac yn falm i'r enaid. Doedd dim sôn am un felin wynt na pheilon i amharu ar fy mhleser! Ond och a sôn, erbyn i mi fynd dros Glywedog dyna ble oedd degau o felinau gwynt fel rhes o filwyr yn hawlio sylw ac yn tynnu oddi wrth yr harddwch naturiol a brofais wrth ddod dros Fwlch y Groes. Mae rhai o blaid y melinau gwynt, ond yn fy myw, ni allaf gytuno â'r farn honno. Rho i mi harddwch naturiol fy ngwlad bob tro.

Yna, y penwythnos cyn i mi sgrifennu hyn o golofn es i lawr i Fae Caerdydd i gerdded ar hyd y morglawdd ac yn ôl er mwyn cael awyr iach a mwynhau'r olygfa dros Fôr Hafren. Roedd ugeiniau o bobl o bob lliw a llun ar yr un perwyl â mi ac yn cerdded, loncian, seiclo, bwrddrowlio, ac ati ar hyd y morglawdd! Cerddais ar hyd y llwybr uchaf draw i ben Penarth o'r morglawdd a dod yn ôl ar hyd y llwybr gwaelod wrth ymyl y dŵr. Dyma edifarhau, gan yr hyn a'm wynebodd oedd sbwriel o bob math yn strim-stram-strellach yr holl ffordd ar hyd y lon. Beth sy'n bod ar bobl, dwedwch, sy mor esgeulus a difeddwl yn anharddu eu gwlad? Teimlais fel cysylltu â'r grŵp o bobl yn y ddinas sy'n trefnu ymgyrchoedd clirio sbwriel a gofyn iddyn nhw roi sylw i'r hyn a welais ar ymyl y morglawdd.

Mae sylw mawr bellach i'r ffaith fod dyddiad y Chwaraeon Olympaidd yn Llundain yn brysur agosau heb sôn am Jiwbili'r Frenhines, ond i ni yng Nghymru yr hyn sy'n bwysig ydy'r ffaith fod ein Heisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg yn prysur agosau hefyd. Yn anffodus fe'i cynhelir yr un pryd â'r Chwaraeon Olympaidd a felly mae'n bosibl bydd hyn yn effeithio ar bresenoldeb yn ein Prifwyl. Ond diau bydd darllenwyr y *Dinesydd* yn ffyddlon i'w gwreiddiau ac yn bwrw draw i Landŵ i fwynhau'r arlwy Cymraeg arferol yn yr Eisteddfod. Gobeithio ceir coroni a chadeirio a fydd dim angen i'r enillwyr chwifio Jac yr Undeb na sefyll i anthem estron fel bydd angen i unrhyw athletwr o Gymru os enillith medal yn y Chwaraeon Olympaidd!

Methaf yn lân a deall pam fod Cymru yn cael ei chyfrif yn wlad adeg chwaraeon y Gymanwlad a'r enillwyr yn sefyll yn sŵn 'Hen Wlad Fy Nhadau' a baner Cymru yn codi uwch eu pennau, ond eto cyfrifir Cymru yn rhan o Brydain adeg y Chwaraeon Olympaidd. Rhyfedd o fyd ynte?

Rhyfedd o fyd hefyd oedd gwylio rhaglen 'Britain's Got Talent'. Daeth côr Only Boys Aloud yn drydydd yn y gystadleuaeth, tra bo *ci* yn cipio'r wobr gyntaf o hanner miliwn o bunnoedd! Y gwylwyr oedd yn pleidleisio a'r carwyr anifeiliaid anwes yn mynd â hi ar ôl gwirioni ar gampau'r ci hwn! Ond pob clod i'n bechgyn ni o'r Cymoedd ar roi gwefr i filoedd lawer a wyliodd y gystadleuaeth hon gan roi Cymru ar y map. Cawn wrando arnyn nhw unwaith eto yn yr Eisteddfod. Wela i chi yno!

# Y Wladfa yn dod i'r Cylch Cinio

Bron ganrif a hanner yn ôl yn 1865 glaniodd y Mimosa. Dros chwe deg mlynedd yn ôl yn 1951 ffurfiwyd y Cylch Cinio. Yn 2001 aeth grŵp o bobl ifainc ar daith dramor. Beth sydd yn eu cysylltu nhw?

Ar nos Lun, 14 Mai – ein gwestai ni, yn y Cylch Cinio, oedd Bob Puw. Bu Bob yn gweithio yng Nghanolfan Addysg Allanol y Bannau yn Storey Arms ger Aberhonddu am 25 mlynedd. Yn 2001, aeth ar daith i'r Wladfa gyda 26 o blant Ysgol Glantaf.

Ar ôl tymor o westeion diddorol ac amrywiol, eisteddodd aelodau'r Cylch Cinio i lawr i glywed Bob yn disgrifio eu taith i'r Wladfa. Roedd y cyflwyniad yn arbennig: ychydig o eiriau gan ein siaradwr gwadd, ac wedyn roedd y lluniau a lleisiau'r bobl ifainc yn disgrifio eu hantur trwy gyfrwng sleidiau a thapiau sain.

Yn dilyn ein pryd blasus, cawsom wledd o luniau yn mynd â ni ar draws y Paith; i fyny'r mynyddoedd; i ambell asado; i'r Eisteddfod leol; ac wrth gwrs i Casa de Te. Noson arbennig i orffen ein tymor.

Y tro nesaf i ni gwrdd fydd Hydref 1af. Os ydych chi eisiau ymuno â ni am bryd o fwyd a sgwrs ar ôl toriad yr haf, cysylltwch â fi, Tony Couch, Ysgrifennydd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, trwy e-bost – **ajcouch@yahoo.co.uk**

PETAL

trefniadau blodau o safon ar gyfer unrhyw achlysur

- priodasau—penblwyddi-dathliadau- anrhegion-addurniadau—ciniawau-cyngherddau-cynhadleddau-cyflwyniadau-gwasanaethau

Cysylltwch ag Ann Mears neu Julie Fox Pritchard

Ffon: 07977 530838

Manylion a lluniau ar ein gwefan www.petal-flowers.com

# Ôl-Lwybrau

## R. Elwyn Hughes

Adeg fy mhlentyndod, yn ystod y tri degau a phedwar degau'r ganrif ddiwethaf, roedd Rhaeadr Gwy yn ardal lwyr Saesneg. Doedd mo'r un capel Cymraeg nac Eisteddfod yno ac ni ddysgid yr un sill o'r iaith yn yr ysgolion. A'r unig gof sydd gen i o 'ddathlu' Dydd Gŵyl Dewi oedd pan fu raid imi gymryd rhan Edward 1af mewn dramodig 'The First Prince of Wales' yn yr ysgol gynradd – digwyddiad alaethus fu'n gyfrifol, o bosib, am ddiffinio hyd heddiw fy holl agwedd at y teulu brenhinol ac at Seisnigrwydd yng Nghymru'n gyffredinol.

Am ryw reswm anesboniadwy daeth tro ar fyd yn niwedd y pedwar degau. Penderfynodd nifer ohonom sefydlu Young Wales Club yn y dref – rhyw fersiwn Saesneg o Urdd Gobaith Cymru. Tua'r un adeg ymunodd chwech ohonom, disgyblion yn Ysgol Ramadeg Llandrindod, â Phlaid Genedlaethol Cymru – fel yr adnabyddid hi bryd hynny. Byddem yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus (a Gwynfor Evans yn denu cynulleidfa o dros gant ar un achlysur), yn gwerthu copïau o'r *Welsh Nation,* yn gwrthod canu *God Save the King* ar ddiwedd cyngherddau lleol (a'r dewraf yn ein plith yn gwrthod codi ar ein traed hefyd), yn paentio sloganau ar waliau yn y gymdogaeth – a gweithredoedd herfeiddiol eraill.

Aeth tri ohonom ati i ddysgu Cymraeg o ddifri – fi fy hunan, y diweddar Tom Davies (Adran Chwaraeon y BBC) a'm cyfaill oes yr Athro Glanville Price o Brifysgol Aberystwyth, ac ymhen amser daeth y Gymraeg yn unig iaith gyfathrebu rhyngom. Cafodd Glanville a minnau gymorth 'answyddogol' gan Annie Eliseus Griffiths, athrawes yn Ysgol Llandrindod; ei dull o'n dysgu oedd trwy ddarllen gyda ni'r llyfr *Teulu Bach Nantoer* yn ystod yr awr ginio. Ymhen y flwyddyn, bûm yng Nghaergrawnt, yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg yr anfarwol Gareth Evans – ond stori arall yw hynny.

# COLOFNYDD Y MIS

## Anna-Lisa Jenaer

'"Lle 'dach chi'n mynd ar eich gwylia blwyddyn yma?'

Cwestiwn cyffredin ond un sydd byth yn cael ei holi gan ein teulu a ffrindiau agos – a hyn am eu bod yn hen gyfarwydd â'r ateb: rhyw ynys anghysbell, siŵr iawn.

Yn hytrach, 'Pa ynys 'dach chi'n mynd iddi?' ydi'r cwestiwn ac mae'r dewis bob amser yn peri penbleth – ynys wefreiddiol Enlli? Ynysoedd y Sili *(Scilly)* a'u moroedd gwyrddlas perffaith? Ynteu un o ynysoedd gwyllt, bythgofiadwy yr Hebrides?

Os fyddai rhaid i mi ddewis ffefryn yna Ynys Bŷr, ger Dinbych y Pysgod fydde honno, gan ei bod yn cyfuno holl nodweddion ynys ddelfrydol: môr a mynydd, coedwigoedd a chlogwyni – a dim ceir.

Dechreusom ymweld ag Ynys Bŷr pan oedd y plant yn bitw ac roedden nhw wrth eu bodd o'r cychwyn cyntaf gyda'i thraethau melyn, parc bychan a'i ffatri siocled – paradwys plentyn yn wir.

Ond i ni'r oedolion, roedd yr atyniad yn un gwahanol. Mae i'r ynys hon naws hudolus, ysbrydol – a'r math o heddwch nad yw i'w ganfod yn hawdd y dyddiau yma.

Mae'r naws yma heb os yn deillio o'r Abaty a'i fynachod. Bu Abaty yma ers y 6ed ganrif a bellach mae yna rhyw ddeuddeg o fynachod Sistersaidd yn byw ac yn gweithio yma, yn cynhyrchu'r persawr a'r siocled sy'n dod ag incwm i'r ynys. Scourmont yng ngwlad Belg yw'r fam-abaty a gŵr o'r Iseldiroedd yw'r abad presennol.

Dros y blynyddoedd cawsom y pleser o ddod i adnabod y mynachod, cymeriadau hynaws sy'n dod o gefndiroedd tra annisgwyl – o'r syrcas, y byd bancio, y byd rasio ceir – ond maent i gyd wedi byw bywydau llawn cyffro a boddhad.

Erbyn hyn maen nhw'n chwilio am fath arall o foddhad – ac nid oes lle gwell i'w ganfod nac ar yr ynys hon.

## Merched y Wawr Caerdydd

Yn ein cyfarfod fis Mai cawsom y pleser o groesawu nifer dda o ddysgwyr o Brifysgolion Caerdydd a Morgannwg a rhoi cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg mewn cyfres o sgyrsiau gyda sawl grŵp gwahanol ohonom. Bu siarad di-ball am bron i awr a rhyfeddasom at frwdfrydedd a dyfalbarhad ein gwesteion a phawb yn mwynhau paned a chacen i gloi'r noson. Bydd cyfarfod mis Mehefin yn agored i bawb. Croeso i chi ymuno â ni i wrando ar Rhys Iorwerth, bardd y Gadair 2011 yn trafod ei waith ar Fehefin 12 am 7.30 yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Westminster Crescent, Heol Cyncoed.

# Penodi Comisiynydd cyntaf y Gymraeg

## *Argraffiadau cynnar Huw Thomas*

Daeth nifer sylweddol o ddinasyddion ynghyd mewn cyfarfod agored yn y brifddinas nos Fercher 16 Mai i glywed araith gyhoeddus gyntaf Comisiynydd y Gymraeg, Meri Huws. Fe allech ddweud mai lawnsio'r ymgynghoriad ar y Safonau drafft mewn perthynas â'r Gymraeg oedd prif fwriad y noson, ymgynghoriad fydd yn cau diwedd wythnos Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Fe ellwch gael copi caled oddi wrth Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5–7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT, neu drwy'r we (comisiynyddygymraeg.org).



*Meri Huws*

Fe'ch anogaf i ymateb i'r ymgynhoriad hwn am sawl rheswm. Yn gyntaf, cefais yr argraff fod y Comisiynydd yn benderfynol o wneud ei gorau glas i wireddu'r ddwy egwyddor sydd yn sail i'w gwaith: ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yn ail, mae rhai o'r Safonau yn ymddangos yn heriol, a bydd angen pwyso, hwyrach yn wleidyddol, er mwyn eu gwireddu. Yn drydydd, disgrifiodd Meri Huws y datblygiadau nesaf yn hanes esblygiad y Gymraeg fel taith, trosiad addas iawn ym maes sosioieithyddiaeth, ac un sy'n galw i gof eiriau'r sosioieithyddwr disglair Joshua Fishman: '*The road to RLS* [Reversing Language Shift, sef cam anghenrheidiol ar y daith i achub iaith] *is a long and difficult one and most of the road must be paved with self-sacrifice*'. Yn bedwerydd, mae tuedd ar draws y byd i ddinasyddion fu'n ymladd dros eu hawliau ieithyddol laesu dwylo pan fo llywodraeth ganol yn mynd trwy gyfnod cadarnhaol a rhagweithiol, fel sydd yn digwydd yng Nghymru gyda'n strategaethau iaith ac addysg cyfrwng-Cymraeg.

Ni fydd y daith i'r Comisiynydd yn un rwydd, ac apeliaf arnoch gefnogi ei hymdrechion cynnar drwy ymateb i'r ymgynghoriad. Mae penodi Comisiynydd cyntaf Cymru yn gam hanesyddol y dylem ni i gyd fod yn rhan ohono. Dyna ein dyletswydd fel dinasyddion.

# Parc yr Arfau

Mae Parc yr Arfau yn destun siarad unwaith eto! Rhoddwyd croeso brwd i benderfyniad Gleision Caerdydd i symud yn ôl i'r Arms Park ar gyfer y tymor nesaf. Ers iddyn nhw symud mas i Stadiwm Dinas Caerdydd yn Lecwydd yn 2009, mae rhywbeth wedi bod ar goll – y tyrfaoedd, yr awyrgylch, a'r arfer o ennill gemau pwysig!

Tybed a fydd y symudiad hwn yn ddigon i roi diwedd ar y sibrwd am werthu'r safle i ddatblygwyr, gan ddechrau cyfnod newydd a chyffrous yn hanes y tîm, a thrwy hynny sicrhau parhad i'r enw byd-enwog ar y llecyn hwn yng nghanol y brifddinas?

Wrth gwrs, i'r rhan fwyaf o gefnogwyr chwaraeon, mae'r enw Parc yr Arfau, neu'r Cardiff Arms Park, yn cynnwys Stadiwm y Mileniwm, sef cartref gemau rhyngwladol Cymru. Yn wir, teitl gwreiddiol honno oedd: Stadiwm y Mileniwm, Parc yr Arfau Caerdydd. Ond aeth yn arfer i'w galw wrth yr enw Stadiwm y Mileniwm yn unig. Mae llawer o bobl yn cytuno â barn yr enwog Gerald Davies, sef bod yr enw yn 'oeraidd ac amhersonol'. Gobaith llawer yw y bydd Parc yr Arfau unwaith eto yn cael ei briod le ar 'y darn o dir sanctaidd hwn lle plannwyd atgofion miloedd o gefnogwyr rygbi am ganrif a mwy'.

Amserol iawn yw bod Gwasg y Lolfa, yn yr wythnosau diwethaf hyn, wedi cyhoeddi llyfr newydd: *The Arms Park – Heart of a Rugby Nation* (ar gael yn ein siopau lleol neu ar www.ylolfa.com). Dyma gyfrol hynod ddiddorol sy'n ein tywys mewn stori a llun drwy 200 mlynedd o hanes y safle eiconig hwn. Fel y dywed swyddog y Lolfa:

> Crewyd hanes ym Mharc yr Arfau; digwyddiadau a newidiodd rygbi'r byd am byth. Cyn i Gymru drechu'r All Blacks ym 1905, dechreuodd y cefnogwyr cartref ganu Hen Wlad fy Nhadau mewn ymateb i'r Haka, a dyna ddechrau, felly, ar yr arfer o ganu'r anthem genedlaethol cyn pob gêm ryngwladol. Ers hynny mae'r tir wedi profi tair Oes Aur yn hanes rygbi Cymru, ac efallai'n wir ein bod ar drothwy'r nesaf.

Emyr Young a Bill O'Keefe yw'r awduron, a phwy well i'n harwin ar y daith hanesyddol hon? Mae Emyr Young yn ffotograffydd proffesiynol ag angerdd am rygbi a phêl-droed, a rhwng 2000 a 2010, fe helpodd sefydlu a thywys teithiau o amgylch Stadiwm y Mileniwm. Mae Bill O'Keefe, hefyd, yn dywysydd proffesiynol. Enillodd radd mewn Twristiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ac erbyn hyn fe yw rheolwr Planet Wales, cwmni sy'n trefnu teithiau o'r safon uchaf, yn cynnwys Teithiau Tywys Cerdded Swyddogol Caerdydd, sef teithiau hanesyddol hynod boblogaidd y ddinas.



Mae'r llun (yn y llyfr trwy ganiatad Amgueddfa Caerdydd) yn dangos rhan o'r dorf ar y teras ym Mharc yr Arfau yn y gêm rhwng Cymru ac Iwerddon yn 1911. Roedden nhw'n arfer mynd yno'n gynnar er mwyn cael lle da i weld eu harwyr. A dyna darddiad yr arfer o ganu emynau cyn y gemau – i'w diddori eu hunain tra'n aros. Gobeithio y gwelir torfeydd tebyg yn croesawu Gleision Caerdydd yn ôl i Barc yr Arfau y tymor nesaf!

**Bryan James**

# Newyddion

**Enillwyr i Brifysgol Aberystwyth**
Llongyfarchiadau i DyfanCynwyl Graves o Ysgol Gyfun Glantaf ac Ianto Jones o Ysgol Gyfun Plasmawr a Rhodri Aled Samuel o Goleg St Ioan Caerdydd ar ennill ysgoloriaethau mynediad i Brifysgol Aberystwyth eleni. Da iawn fechgyn! Ymlaen bo'r nod!

**Golygydd y Dinesydd yn rhedeg**
Llongyfarchiadau i Dafydd Saer, golygydd y mis hwn, am redeg ras 10k Bryste ar 20 Mai. Dyma'r tro cyntaf erioed iddo redeg y fath ras, gan godi dros £300 i'r Teenage Cancer Trust. Diolch i'w noddwyr hael.

Mewn adroddiad gwaith ysgol yn ôl yn 1975, dywedodd Mr Gerwyn Caffrey, sef athro chwaraeon Dafydd, fod 'fflam ei ddiddordeb yn diffodd'. Wrth i'r fflam gael ei ailgynnau, mae ei lwyddiant presennol yn sicr o roi cryn sioc i'r gymuned chwaraeon yng Nghymru felly.

**Anrhydedd i Arlunydd**
Penodwyd yr Arlunydd Dr Ivor Davies, a fagwyd ym Mhenarth, yn Llywydd Anrhydeddus Academi Frenhinol Cambrian yng Nghonwy. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn ym Mhenarth ac yn un o'r ychydig Gymry Cymraeg oedd yn ddisgybl yn yr ysgol honno yn ei ddydd. Llongyfarchiadau iddo.

**Swydd newydd i Guto!**
Ar ôl pedair blynedd o fod yn llefarydd i Boris Johnson, Maer Llundain, mae Guto Harri gynt o'r Eglwys Newydd bellach yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu News International sy'n perthyn wrth gwrs i Rupert Murdoch. Pob llwyddiant iddo yn y swydd anodd hon!

**Dysgwr Cymraeg Newydd**
Mae Chris Coleman sy'n dod o Abertawe yn wreiddiol wedi penderfynu mynd ati i ddysgu Cymraeg yn rhinwedd ei swydd fel rheolwr tîm pêl-droed Cymru. Mae wedi ymaelodi â chwrs Cymraeg yn y ganolfan Gymraeg i oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob lwc Chris, a diolch am ddangos y ffordd i eraill.

**Llongyfarchiadau a chroeso!**
Llongyfarchiadau i Rhun Gwynedd a Magda ap Robert, Llandaf ar enedigaeth merch fach - Mari - ar 2 Mai - chwaer fach i Ioan. Mari yw'r fersiwn bachigol Cymraeg ar ei henw, a Marisha yw'r fersiwn bachigol Pwylaidd. Bydd yn cael ei bedyddio yn Maria Elena Awen!

Wyres arall i Felicity Roberts, Bow Street, Ceredigion. Clywyd portread o Rhun hefyd ar y rhaglen Bwrw Golwg ar Radio Cymru fore Sul 6 Mai yn ei ddilyn fel yr oedd yn cychwyn ar bennod newydd yn hyfforddi i fod yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae ei flwyddyn gyntaf yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf, yn dirwyn i ben nawr.

**Cydymdeimlo â** theulu y diweddar Iwan Williams a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol yn ystod mis Mai. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar 18 Mai.

**Cyngerdd ysbrydoledig**
Dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina cynhaliwyd cyngerdd o safon uchel gan Barti'r Efail o ardal Pontypridd yng Nghapel Bethel Rhiwbeina ar 21 Mai. Sefydlwyd y parti hwn nôl yn 1995 i gystadlu yng Ngŵyl Cerdd Dant Pen-y-bont a'r Eisteddfod Genedlaethol. Eu harweinydd ydy Menna Thomas a Rhodri Harries yn gyfeilydd iddyn nhw. Cyflwynwyd eitemau'r parti gan Gwyn Hughes Jones. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at elusen y Gymdeithas am eleni, sef Tŷ Hafan yn y Sili.

**Medal haeddiannol i Eirlys!**
Eleni dyfarnwyd Medal Goffa Syr T. H. Parry Williams i Eirlys Britton gynt o Gaerdydd am ei gwaith gwirfoddol ym myd dawnsio gwerin am dros ddeng mlynedd ar hugain. Mae Dawnswyr Nantgarw wedi dod i'r amlwg yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru dros y blynyddoedd ac mewn gwyliau gwerin mewn sawl rhan o'r byd. Bellach mae Ysgol Berfformio Bro Taf hefyd yn dod i'r amlwg ac yn rhoi cyfle i blant ac Ieuenctid ardal Pontypridd brofi yr un hwyl a sbri a gafodd Eirlys ei hun flynyddoedd ynghynt. Daw teulu Eirlys o ardal Llanelli ond derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Bryntaf a Rhydfelen. Llongyfarchiadau gwresog iddi ar dderbyn y fedal hon yn Eisteddfod Bro Morgannwg yn yr haf.

**Llongyfarchiadau i** Cynthia Evans, Rhiwbeina, trysorydd presennol pwyllgor *Y Dinesydd* ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 4 Mai.

**Llongyfarchiadau i** Cerys Llewellyn, Ysgol Gyfun Glantaf, ac Indeg Williams ac Osian Garmon Hughes


**Ar Werth**

**TELYN ERARD GOTHIC**

**mewn cyflwr da**

**£4500**

**Tel: 07779 089905**

o Ysgol Gyfun Plasmawr a Lydia Jayne Harrison, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, am ennill prif ysgoloriaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cydymdeimlo ag** Elliw Richards, Rhiwbeina, a'r teulu oll ar golli ei mam, Aur Roberts. Bu'r angladd yn yr Hen Gapel yn Llanuwchllyn ar 30 Ebrill ac wedi hynny yn y fynwent newydd yn y pentre.

**Buddugoliaeth i Fyfyrwyr Caerdydd**

Daeth 16,000 o gefnogwyr Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe i Stadiwm y Mileniwm ar nos Fercher 2 Mai i wylio'r ddau dîm yn ymgiprys yn y gystadleuaeth flynyddol. Dechreuodd Abertawe yn gryf ond yn y diwedd gorfu iddyn nhw ildio i chwarae cryf Caerdydd ac ar ddiwedd y gêm y sgôr oedd 33 i Gaerdydd ac 13 i Abertawe. Llongyfarchiadau i fyfyrwyr Caerdydd ar eu camp.

**Gemau Cymru 2012**

Sefydlwyd Gemau Cymru y llynedd gan yr Urdd a rhoddwyd cyfle i dros fil o athletwyr ifanc gystadlu ynddyn nhw. Mae'r gemau hyn yn ŵyl aml-chwaraeon sydd wedi ei hysbrydoli gan Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Eleni fe'u cynhelir dros y cyfnod 13-15 Gorffennaf a noddir yr ŵyl gan nifer o gwmnïau ac awdurdodau. Cynhelir y gemau yng Nghaerdydd ar wahanol safleoedd a disgwylir dros 1,300 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru i'r gystadleuaeth mewn chwaraeon megis gymnasteg, nofio, canŵio, triathalon, pêl-droed i ferched, athletau, rygbi saith-bob-ochr, pêl-rwyd, hoci iâ, hwylio, rhwyfo dan do a sboncen.

**Agor Llwybr Arfordir Cymru**

Cynhaliwyd seremoni arbennig ym Mae Caerdydd ar 5 Mai i roi cychwyn i Lwybr Arfordirol Cymru. Bydd pobl yn gallu cerdded yr holl ffordd o gwmpas y wlad bellach, taith o 870 milltir o Gasgwent yn y de i'r ffin yn agos at ddinas Caer yn y gogledd. Disgwylir bydd y llwybr hwn yn denu cerddwyr o dros y byd i gyd gan mai Cymru yw'r wlad gyntaf i agor y fath lwybr. Rhoddwyd croeso i'r llwybr newydd gan John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru.

**Tafarn hynaf Caerdydd i gael cartre newydd**

Bu ymgyrch hir i gadw tafarn hynaf Caerdydd, y Vulcan yng nghanol y ddinas, rhag cau, gan fod perchnogion y tir am y safle i'w droi yn faes parcio. Wedyn ar yr unfed awr ar ddeg daeth gwaredigaeth iddi gan i Amgueddfa Sain Ffagan dderbyn cynnig am ei throsglwyddo yno i'w hailadeiladu a rhoi bywyd newydd iddi.

**Gleision Caerdydd yn colli 12 chwaraewr**

Ar ôl tymor eithaf siomedig mae dwsin o'r tîm yn gadael. Rhai yn ymddeol ac eraill yn ymuno â thimau eraill. Felly erbyn y tymor nesaf bydd llawer o waed newydd yn y tîm a'r gobaith ydy bydd hynny'n sbardun i wella llwyddiant y tîm. Amser a ddengys a wireddir y dymuniad hwn!

**Amgueddfa Sain Ffagan yn datblygu**

Mae Cynllun gwerth £24 miliwn ar y gweill i ddiweddaru a datblygu Amgueddfa Sain Ffagan. Bwriedir codi oriel newydd i ddehongli hanes Cymru o 230,000 Cyn Crist i'r presennol, a chodi adeiladwaith archeolegol fydd yn portreadu fferm o'r Oes Haearn a llys un o dywysogion Gwynedd yn y 13eg ganrif. Ar hyn o bryd denir tua 600,000 o ymwelwyr i'r Amgueddfa yn flynyddol, ond disgwylir i'r nifer godi'n sylweddol yn sgil y datblygiadau newydd.

**Chwilio am gartre newydd i glwb a chapel**

Mae Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn gorfod chwilio am gartre newydd wedi i aelodau Clwb Bowlio Penhill yn Llandaf benderfynu gwerthu'r safle am dros £1 miliwn, gan roi £40,000 yr un ym mhocedi'r aelodau. Bu'r clwb rygbi yn rhannu'r safle am flwyddyn a bu cydweithio llwyddiannus rhwng y bowlwyr a'r chwaraewyr rygbi nes y digwyddodd hyn.

Mae Capel Ebeneser ar Heol Siarl wedi gwerthu'r capel i Eglwys Gadeiriol y Pabyddion gyferbyn â'r adeilad a bellach mae'r aelodau yn addoli bob bore Sul yng Nghanolfan Gymunedol yr Eglwys Newydd a chyda'r nos yn yr eglwys yn Windsor Place nes iddynt ddarganfod cartre newydd parhaol.

**Llongyfarchiadau i** Huw a Gwenan Thomas, Rhiwbeina, ar enedigaeth Sara Ceindeg yn ysbyty'r Brifysgol ar 11 Mai. Chwaer fach i Megan ac Awen ac wyres arall i Rhian Huws, Mynydd Caerffili, a Dai a Chris Thomas, Cilgeran.

**Apêl Fred Keenor yn llwyddo**

Ar ôl dwy flynedd o gasglu £85,000 i godi cerflun i Fred Keenor, capten tîm pêl-droed Dinas Caerdydd a enillodd Cwpan FA Lloegr yn 1927, mae'r nod wedi ei gyrraedd a'r gobaith nawr yw gweld y cerflun gan y cerflunydd Roger Andrews yn sefyll o flaen y stadiwm newydd yn Lecwydd ym mis Mai.

**Cyfarfod blynyddol cyfeillion Patagonia**

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cangen y de o Gymdeithas Cymru-Ariannin yn festri Salem Treganna ar 15 Mai. Yn ystod y cyfarfod cafwyd argraffiadau o ymweliad cyntaf T. James Jones a'i wraig Manon Rhys â'r Wladfa adeg Eisteddfod y Wladfa y llynedd. Yna, etholwyd y canlynol yn Swyddogion am 2012/2013 sef Elin Rhys yn gadeirydd, Eiry Palfrey yn Ysgrifennydd a Bob Pugh yn drysorydd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Walter Ariel Brooks gynt o Comodoro Rivadaria.

# YSGOLION

## Ysgol Bro Eirwg

**Cymdeithas Bêl-droed Cymru**

Cymerodd Ysgol Gymraeg Bro Eirwg ran mewn ymgais ar gyfer Record Y Byd Guinness ar ddydd Gwener 18 Mai. Roedd 140 ddisgyblion o Flwyddyn 4, 5, a 6 yn barod i ddawnsio a chyfamseru ar iard yr ysgol am 1.00yp GMT i fod yn rhan o record newydd y byd trwy'r Ddawns Fawr 2012.

Trefnwyd y ddawns yr un pryd â chyrhaeddiad y Fflam Olympaidd yn y DU ac mae'r Ddawns Fawr yn rhan o'r Olympaidd Diwylliannol sydd yn rhedeg law yn llaw â Llundain 2012. Gyda 500,000 wedi ymroddi i gymryd rhan yn y Ddawns Fawr i Ysgolion, mae Ysgol Bro Eirwg yn rhan o gymuned hollfydol o ddawnswyr sydd yn gobeithio curo record y byd, wrth sicrhau fod pawb yn dawnsio'r un ddawns ar yr un pryd dros y byd. Ar hyn o bryd yr Iseldiroedd sy'n dal y record gyda 1,472 o safleoedd dawns a 264,188 o bobl yn cymryd rhan.

Mae'r plant wedi bod yn ymarfer coreograffi arbennig y ddawns pum munud am y chwe wythnos olaf gyda'i athro Addysg Gorfforol Rachel McGuinness. Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan wedi dysgu'r un ddawns i'r un gerddoriaeth i sicrhau cyfamseru byd-eang.

Cynhaliwyd Dawns Fawr Ysgol Bro Eirwg ar iard yr ysgol, gyda chefnogaeth gan staff a disgyblion eraill.

Dywedodd y brifathrawes, Mrs Gaynor Gibby-Williams: "Mae'r plant yn gyffrous iawn i fod yn rhan o ddawns mor fawr hollfydol ac i ymgymryd mewn cais Record Byd Guinness. Maent wedi mwynhau dysgu'r ddawns a chawsom ddigon o hwyl Dydd Gwener."

## Ysgol Bro Morgannwg

**Ymweliad Chris Coleman**

Ar ddydd Gwener, 27 Ebrill ymwelodd rheolwr tîm pêl-droed Cymru â'r Ysgol. Cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Chris cyn iddo gael ei lun wedi tynnu gyda thîmau pêl-droed yr Ysgol. Mwynhaodd y plant onestrwydd a charisma Chris wrth iddo ateb eu cwestiynau ac roeddent yn teimlo mai anrhydedd oedd croesawi y fath ymwelydd.



*Chris a Tîm Bl.7*



*Chris a Tîm Bl.8*



*Chris a Tîm Bl.9*



*Chris a Tîm Bl.10*

**Spelling Bee De Cymru**

Aeth pedwar o enillwyr Spelling Bee Ffrangeg Blwyddyn 7, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i gystadlu yn rownd ranbarthol De Cymru ar Ddydd Mercher 25 Ebrill yn Ysgol Bryn Gwyn, Llanelli. Gwnaeth Brennig Davies, Elin Alexander, Manon Wiliam a Beth Humphreys yn ardderchog ar y dydd, gyda Brennig yn dod yn gyntaf a Beth yn dod yn bedwerydd yn y gystadleuaeth ac felly bydd y ddau ohonynt yn mynd ymlaen i gystadlu yn rownd derfynol Cymru Cystadleuaeth y Spelling Bee 2012 yn y Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth ym mis Gorffennaf. Dymunwn bob dymuniad da iddyn nhw!



*Brennig a Beth*

**Pencampwyr Caerdydd a'r Fro**

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Blwyddyn 9 yr ysgol am ennill cwpan pêl-droed ysgolion Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar. Yn y rownd derfynol roedd Bro Morgannwg yn fuddugol o 4 gôl i 3 yn erbyn ysgol uwchradd Eglwys Newydd. Sgoriwyd goliau Bro Morgannwg gan Dafydd Smith (3) a Tom Edwards.



*Pencampwyr Bl.9*

**Pencampwriaeth Gymnasteg Ysgolion Prydain**

Cynrychiolodd Emyr Byrne, Rhidian Mepham, Iwan Mepham, Ffion Byrne a Megan Dancey yr ysgol (a Chymru!) ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Ysgolion Prydain, yn Stoke yn ystod mis Mai.

Fe wnaeth y tîm gystadlu yn frwd yn erbyn deuddeg



*Tîm Llawr a Llofneidio*

rhanbarth arall y Deyrnas Unedig yn y gystadleuaeth Gwaith Llawr a Llofneidio. Yn wir Ysgol Gyfun Bro Morgannwg oedd yr ysgol gryfaf yn y gystadleuaeth o ran llofneidio. Daeth y tîm yn 7fed – canlyniad gwych ar eu cynnig gyntaf.

Dyma oedd y tro cyntaf i'r ysgol i gystadlu ar y lefel yma mewn unrhyw gamp ers ei sefydlu yn 2000 a phrofiad bythgofiadwy i bawb a wnaeth deithio i Stoke!

## Ysgol Pen-y-Garth

**Ymweliad Pentywyn**

Ym mis Mai, fe aeth disgyblion Blwyddyn 5 ar gwrs preswyl i Ganolfan Awyr Agored Pentywyn yng Ngorllewin Cymru. Cafodd y plant gyfleodd i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis saethyddiaeth, syrffio (yn y môr oer!), dringo wal, a cwrs rhaffau uchel. Yr uchafbwynt oedd Antur yr Afon (ble roedd rhaid dilyn yr afon a bod yn fwdlyd!).

**Rygbi**

Yn dilyn buddugoliaeth tîm rygbi'r ysgol yn Nhwrnamaint Rygbi'r Urdd Caerdydd a'r Fro fe aeth tîm rygbi'r ysgol ar ddydd Sadwrn, 19 Mai 19 i bencampwriaeth Cymru yn Llanelli ble roedd 32 o dîmau rygbi gorau Cymru yn cystadlu.

Llwyddodd tîm YPYG i gyrraedd y rownd derfynol yn dilyn buddiogoliaethau gwych yn y gemau grŵp a'r rownd gyn-derfynol. Yn anffodus colli oedd ein hanes yn yr eiliadau olaf o 21–14 yn erbyn Ysgol Gymraeg Casnewydd. Er gwaethaf hyn rydym yn falch iawn o fod yr ail dîm gorau yng Nghymru!

**Pêl-droed**

Yn ogystal â phencampwyr rygbi, tîm pêl-droed YPYG yw pencampwyr pêl-droed yr Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro am 2012. Llwyddodd yr ysgol i guro pob tîm yn Y Fro a chwarae gêm ail-gyfle yn erbyn Pencampwyr Ysgolion Caerdydd, Ysgol Eglwys Newydd, Caerdydd, gan guro o 5–2. Aeth y tîm draw i Aberystwyth ar ddydd Sadwrn, 12 Mai i rowndiau terfynol Cymru a gwneud yn arbennig o dda yno. Blwyddyn dda i chwaraeon ym Mhen-y-Garth!

**Eisteddfod**

Pob hwyl i Parti Cerdd Dant yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yng Nghlynllifon yn ystod yr hanner tymor. Mwynhewch eich amser yn y gogledd.

**Llongyfarchiadau**

James Rees, William Parsons, Aron Arthur, Tomos Jac a Cai Lloyd ar fod yn aelodau o dîm rygbi Bro Morgannwg ac am ennill Cwpan DC Thomas yn Stadiwm y Mileniwm ddydd Sadwrn, Mai 12fed. Da iawn chi fechgyn!

Hefyd Llongyfarchiadau i Tomos Jac Fazackerly am fod yn Gapten Tim buddugol Bro Morgannwg ond hefyd ar gael ei ddewis i dîm rygbi De Ddwyrain Cymru. Tipyn o gamp!

**Gemau Olympaidd Penarth**

Eleni i ddathlu Gemau Llundain 2012 mae ysgolion Penarth yn cynnal Gemau Olympaidd ein hunain. Bydd pob dosbarth o'r Adran Iau yn cael cymryd rhan mewn

cystadleuaethau chwaraeon amrywiol. Yr wythnos diwethaf fe gafodd pump o ddisgyblion yr Adran Iau, sef Ben Rogers, Ingmarie Fountain Roche, Rhydian Thomas, Math O'Donnell a Olivia Humphreys gyfle i gario torch arbennig y gemau a gariwyd yn ei thro i bob ysgol yn y dref. Mae Blwyddyn 6 eisoes wedi mynychu seremoni agoriadol y gemau, a agorwyd hagor yn swyddogol gan y Fonesig Tanni Grey Thompson.

**Gwyddbwyll**

Llongyfarchiadau i Iestyn Green ar ei lwyddiant yn y Mega Final yng Nghasnewydd ar ddydd Sadwrn, 12 Mai.

## Ysgol Plasmawr

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

**Paned am ddim!**

Mae Ysgol Plasmawr wedi elwa ers blynyddoedd o gael cymorth gwirfoddolwyr o'r gymuned i wrando ar blant yn darllen yn y Gymraeg. Os oes gennych chi awr a hanner yn rhydd rhwng 9.00 a 10.30 rhyw fore unwaith yr wythnos o fis Medi eleni, tybed a hoffech chi ymuno a chriw hapus o wirfoddolwyr yn y Bloc Cynnal Dysgu? Cewch baned o de neu goffi ffres, croeso cynnes a'r cyfle i gwrdd â disgyblion brwdfrydig mewn awyrgylch cartrefol a chefnogol. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Mrs Ruth Davies ar 02920 573938 am sgwrs.

**Cario'r fflam**

Braint ac anrhydedd i Zak Lee-Green (cyn ddisgybl) a Gwynfor Roderick (Blwyddyn 9) wrth gario'r fflam Olympaidd dros benwythnos Mai 25ain a 26ain, Zak yn y Bae a Gwynfor yn y Rhondda.

**Naid hir!**

Llongyfs enfawr i Catrin Lord (bl 7) am gael ei dewis i gynrychioli'r sir yn y naid hir.

**Arddangosfa**

Ar 19 Mehefin, cynhelir arddangosfa Gelf, Graffeg, Tecstilau a Dylunio Cynnyrch yr Ysgol yn yr Atriwm ym Mhlasmawr. Cyfle i chi weld ffrwyth llafur blwyddyn o waith caled ar draws y wahanol bynciau.

**Pencampwyr Blwyddyn 7**

Blwyddyn anhygoel ar y meysydd chwaraeon i dimoedd Blwyddyn 7 eleni. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y bechgyn yn bencampwyr rygbi a phêl-droed Cwpanau Caerdydd, a'r merched pêl-rwyd yn bencampwyr Ysgolion Cymraeg y Deheubarth.

**Yr ysgol ar daith**

Cyfnod cyffrous yw diwedd y flwyddyn gyda nifer o weithgareddau i wahanol garfannau o blant. Bydd Blwyddyn 7 yn teithio i Ffrainc ar daith 'amddifadiad cwsg!' am 24 awr; bydd Blwyddyn 8 ar daith i Dyddewi am 4 noson i brofi rhai o atyniadau gorau'r gorllewin; bydd Blwyddyn 12 yn dychwelyd i barhau gydag astudiaethau'r Bac gan gynnwys modiwl iaith a Ffair Ryngwladol.

**Pob lwc**

Ar ran Ysgol Plasmawr, pob lwc i bawb bydd ynghlwm gyda'r Eisteddfod yn y Fro ym mis Awst.

## Rysáit Mis Mehefin

## TREIFFL SILABWB LEMWN AC AERON

Pwdin at bob achlysur – cymaint mwy na threiffl! Gallwch ddefnyddio cacen Madeira yn lle'r gacen lemwn

**Amser paratoi:** 20 munud + 2 awr amser mwydo ac oeri

Digon i 6–8

***Cynhwysion***

6 tafell o gacen lemwn
100ml gwin gwyn sych
Croen a sudd 1 lemwn
150g siwgr mân
450g mafonfwyar neu aeron cymysg yr haf (ffres neu wedi'u rhewi)
300ml hufen dwbl
Almonau hollt neu fisgedi rataffia i addurno

***Dull***

Arllwyswch y gwin i ddysgl gymysgu, ychwanegwch 2–3 darn o groen lemwn a'i adael i fwydo am 1–2 awr.

**Gyda ffrwythau wedi'u rhewi** – rhowch y ffrwythau mewn sosban gyda 50g o siwgr mân a llond llwy fwrdd o ddŵr. Cynheswch yn raddol i dynnu'r sudd a thoddi'r siwgr. Pan fydd y ffrwythau wedi dadmer, tynnwch y sosban oddi ar y gwres a'i gadael i oeri.

**Gyda ffrwythau ffres** – golchwch y ffrwythau, torrwch yr aeron mwyaf yn eu hanner ac yna ewch ymlaen fel gyda'r ffrwythau wedi'u rhewi.

Rhowch y tafelli o'r gacen lemwn ar waelod dysgl weini wydr. Dodwch y ffrwythau a'r syrop dros y gacen a'i roi yn yr oergell.

Tynnwch y croen lemwn o'r gwin ac ychwanegu'r sudd lemwn, 100g siwgr mân a hufen dwbl heb ei chwipio. Chwisgwch i wneud silabwb ysgafn ond trwchus. Arllwyswch y silabwb dros y ffrwythau a gadael iddo oeri am oriau – dros nos os oes modd. Taenwch almonau wedi'u tostio neu rataffias wedi'u malu drosto.

*Hoffem gydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru.*

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

# BŴT CAMP

Mae 25 o bobol wedi cofrestru ar gyfer clwb newydd Menter Caerdydd i oedolion yng Nghaeau Pontcanna o'r enw Bŵt Camp. Clwb ymarfer corff o dan hyfforddiant Roz Richards yw Bŵt Camp. Mae'n gyfle gwych i gadw'n heini yn yr awyr agored. Braf yw clywed cymaint o Gymraeg yn cael ei siarad – a'i weiddi! – yng Nghaeau Llandaf. Er gwaethaf yr enw, mae'r sesiynau'n addas ar gyfer pob lefel o ffitrwydd ac nid yw Roz yn feistres rhy galed er bod y coesau braidd yn dynn y diwrnod wedyn. Mae nifer sylweddol yn fwy o ferched wedi cofrestru na dynion hyd yn hyn, cyfle gwych i rai o ddynion sengl y ddinas ddod i adnabod y merched efallai! Mae'r criw yn cwrdd pob nos Fercher am 7 o'r gloch yn y maes parcio yng Nghaeau Llandaf. Rhaid cofrestru o flaen llaw, ac mae croeso cynnes i aelodau newydd – cysylltwch ag aweldavies@mentercaerdydd.org 02920 689888.



*Aelodau brwd Bŵt Camp, clwb ymarfer corff yng Nghaeau Pontcanna. Mae'r ychydig ddynion yn llechu yn y cefn. A oes rhywun yn adnabod wyneb cyfarwydd o blith y dynion? Cliw – cyn-ganwr pop a chyflwynydd teledu a radio. Atebion ar gerdyn post i'r golygydd os gwelwch yn dda.*

# Addysg Feithrin Gymraeg

*Annwyl Riant/Warchodwr*

## Cylch Meithrin Treganna

Nodyn i roi gwybod bod lle ar gael yn y Cylch yn y boreau o fis Medi 2012 ar gyfer plant tair oed. Os y'ch chi – neu rhywun y'ch chi'n ei nabod – wedi methu â chael lle i'ch plant mewn ysgol Gymraeg leol, neu yn awyddus i'ch plant dderbyn addysg feithrin Gymraeg, mae'r Cylch yn fodd rhad ac am ddim o sicrhau'r addysg honno yn lleol.

Mae rhywfaint o le ar gael i blant dros ddwy a hanner i ymuno â ni am hyd at dridiau yr wythnos yn y prynhawniau hefyd, felly cysylltwch â ni nawr ar cylchmeithrintreganna@gmail.com am ragor o wybodaeth.

Cofiwch hefyd am y Cylch Ti a Fi a gynhelir yn Neuadd Gymunedol Treganna rhwng 9.45–11.15am bob bore dydd Iau. Dyma gyfle gwych i rieni/gwarchodwyr a'u babis/plant i fwynhau cymdeithasu, chwarae a chanu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Cylch Meithrin Treganna ar agor i bawb – croeso i chi ymuno â ni!

*Diolch yn fawr,*

**Pwyllgor Cylch Meithrin Treganna**

# *Cofio'r Titanic*

*Nodyn o ddiddordeb arbennig i'r* Dinesydd

Ym mis Ebrill eleni fe roddwyd sylw mawr i'r ffaith ei bod hi'n gan mlwyddiant trychineb y *Titanic*. Rhan o'r cofio oedd i long fodern, y *Balmoral*, ddilyn yr un llwybr dyfrllyd â'r *Titanic*. Ar y daith arbennig yma roedd yna ganran uchel o bobl oedd â chysylltiad teuluol a swyddogol â'r drychineb, ac ar yr un dyddiad a'r un awr y digwyddodd y 'ddamwain' ganrif yn ôl, fe gynhaliwyd gwasanaeth ar fwrdd y *Balmoral* gyda ficer o ardal Abertawe yn cymryd rhan. Ond nid am y rheswm yma y nodir hyn yn y *Dinesydd*. Mae gan ddinesydd o Gaerdydd le amlwg iawn yn yr hyn ddigwyddodd ar y *Balmoral* – felly daliwch i ddarllen!

I ddod at y drychineb ganrif yn ôl. Wrth i'r *Titanic* araf-suddo fe chwaraeodd y gerddorfa'r dôn a genir i'r geiriau 'Nearer My God To Thee' ('Nes Atat Ti Fy Nuw, Nes Atat Ti'). Yn y gwasanaeth ar fwrdd y *Balmoral* eleni fe ganwyd y geiriau yma gan artist o Gaerdydd – cyn ddisgybl o Ysgol Glantaf. Mae'n werth darllen yr hyn a ysgrifennwyd ar y we am y perfformiad arbennig yma: 'Anthony Stuart Lloyd ... starts singing in his lovely, deep, rich bass-baritone voice ... if there were any dry eyes, they are not now ... Powerful, haunting, sad, gut wrenching.'



*'Powerful, haunting, sad, gut wrenching': Anthony Stuart Lloyd yn canu ar fwrdd y Balmoral.*

Am 2.30 y bore, wedi cynnau canhwyllau a thaflu torchau i'r môr – mae'r fan yma yn fynwent swyddogol erbyn hyn – fe drawodd cerddorfa'r *Balmoral* nodau'r emyn 'Nes Atat Ti' ac fe ddisgynnodd y geiriau dirdynnol trwy lais Anthony Stuart Lloyd ar y gynulleidfa oedd yn rhannu'r cofio arbennig yma. Roedd y noson yn brofiad emosiynol ac ingol, ond urddasol tu hwnt. Fe roddodd llais Anthony Stuart Lloyd ddeimensiwn anhygoel i'r uchafbwynt profiad yma. Yr oedd amser wedi rhewi pawb oedd yn gwrando yn dalp o deimlad – pawb yn unfryd mewn teimlad.

'Perfformiad llachar a llais i ryfeddu ato' oedd un o'r sylwadau a wnaed gan un a oedd yno.

Roedd Tony Lloyd (i'w gyfoedion) yn un o'r can disgybl cyntaf ym mlwyddyn agor Ysgol Glantaf ym Medi 1978.

Llongyfarchiadau'r *Dinesydd* i un ohonom ni!

**Mallt Anderson**

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Rhiwbeina

Rydym yn dymuno'n dda i Gareth, mab Julie a Wyn Jones, yr Eglwysnewydd, a Hayley Raymond o Dreletert, sir Benfro, yn eu bywyd priodasol. Priodwyd y ddau yn Nhreletert.

Dymunwyd pen-blwydd hapus iawn i un o'r ffyddloniaid, Mr Ken Williams, Rhiwbeina. Roedd yn 90 ganol Mai.

## Capel Ebeneser

**Dechrau'r daith**

Mae eglwys Ebeneser wedi gwerthu'r adeilad ar Heol Siarl ac am gyfnod bydd yn ddi-adeilad ond ei weledigaeth yw adeiladu canolfan amlbwrpas fydd yn hyrwyddo gwaith Iesu Grist.

Cynhaliwyd oedfaon arbennig ar ddydd Sul 6 Mai, i ddiolch i Dduw am y bendithion gafwyd ac i ddathlu dechrau ein pererindod. Darllenwyd cyfarchiad gan Dr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr a chyn-weinidog Ebeneser, a chyfarchion gan Eglwys Minny Street.

Cyflwynwyd Deio Glyn i'r Arglwydd gan ei rieni Ynyr a Gwenllïan Roberts a rhoddwyd Beibl iddo'n rhodd gan yr aelod hynaf oedd yn bresennol, sef Nansi Evans. Yna, derbyniwyd Ynyr yn aelod o deulu Iesu Grist yn Ebeneser.

Dwy flynedd yn ôl tynnwyd llun o'r gynulleidfa a gwnaed jig-sô mawr ohono. Ar gyfer y Sul hwn paratowyd cerdyn gan Gill Lewis oedd yn cynnwys darn o'r jig-so a Gweddi'r Daith. Gofynnwyd i bawb ddod â'u darn jig-sô i'r oedfa gyntaf yn y lle newydd. Cyfansoddwyd emyn pwrpasol, ar gyfer yr achlysur, gan Casi Jones – a diolchwn iddi am ei chymwynas.

Cymerwyd rhan gan nifer o aelodau gyda darlleniadau a chyflwyniadau cerddordol a chafwyd negeseuon pwrpasol gan y gweinidog – nad y ffurfiau a'r diwylliant sy'n ddigyfnewid ond y gwirionedd Cristnogol. Mae Duw yn Dduw y Medra, a does dim tu hwnt iddo. Gall newid calonnau, ac fel enghraifft o hyn cawsom dystiolaeth Gwilym Jeffs. Penderfynwyd gadael yr organ i'r perchnogion newydd ac felly roedd y datganiad Windsor March gan Cedric Jones yn un arwyddocaol.

Roedd hwn yn Sul i'w gofio yn ein hanes. Sul o edrych yn ôl yn ddiolchgar am y bendithion a gafwyd yn yr adeilad am gyfnod o 34 o flynyddoedd ac o edrych ymlaen wrth gamu mewn ffydd i'r dyfodol.

**Prif Fachgen**

Llongyfarchiadau i Gwilym Tudur ar gael ei ethol yn Brif Fachgen Ysgol Glan Taf.

## Minny Street

**Cefnogi gweithgarwch Cymorth Cristnogol**

Dros gyfnod o bron tair wythnos ym mis Mai bu'r eglwys yn canolbwyntio ar gefnogi gweithgarwch Cymorth Cristnogol. Bu Trydar Eglwys Minny Street (@MinnyStreet) yn cyfeirio'n ddyddiol at waith yr asiantaeth a thrwy gasgliadau mewn oedfaon, te prynhawn, Cinio Tlawd a Chyfoethog, noson gymdeithasol ac ymuno ag eglwysi Cymraeg eraill y ddinas mewn bore coffi, cafwyd cyfle i feddwl am y sawl sy'n llai ffodus na ni. Yn baratoad ar gyfer Wythnos Cymor th Cristnogol, gan ymateb i sbardun gan Gylch Dinasyddiaeth yr eglwys, ymrwymodd chwech o gynulleidfa Minny Street, gan gynnwys y Gweinidog a'i deulu, i her ymgyrch *Live Below the Line* gan fyw ar £1 y dydd dros y cyfnod 7-11 Mai 2012. Am ymateb yr unigolion a aeth i'r afael â'r her i'r profiad, ynghyd â holl newyddion Minny Street, ewch i wefan yr eglwys: www.minnystreet.org.

**Ethol diaconiaid newydd**

Bydd Eglwys Minny Street yn ethol diaconiaid newydd bob pedair blynedd – a phob diacon yn cael ei ethol am gyfnod o wyth mlynedd. Ddiwedd yr haf eleni bydd cyfnod wyth o'n diaconiaid yn dod i'w derfyn a mawr yw ein diolch i Dianne Bartholomew, Nevil Davies, John Albert Evans, Rhiannon Evans, Eilonwy Jones, Hefin Jones, Eleri Morgan a Hywel Pennar am eu cyfraniadau dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Ym mis Ebrill rhoddwyd cyfle i aelodau enwebu cyd-aelodau yn ddiaconiaid newydd. Neilltuwyd y diaconiaid hyn i'w gwaith yn yr oedfa Gymun fore'r Sulgwyn a dymunwn fendith ac arweiniad Duw ar waith Robin Brown, Gill Griffiths, Dwyfor Jones, Elfrys Jones, Glyn Jones, Elinor Patchell, Aerona Warrington a John Wilkins wrth iddynt ymuno ag Eleri Bevan, Margaret Davies, John Gilbert Evans, Peter Gillard, Havard Gregory, Bethan Jones, Rhun Jones, Dyfrig Parri, Mair Treharne ac Iolo Walters i wasanaethu'r eglwys drwy ofalu am faterion gweinyddol ynghyd â rhoi arweiniad ysbrydol iddi dros y blynyddoedd nesaf.

## Salem, Treganna

**Clwb Cerdded**

Cafodd y clwb cerdded amser hyfryd ar fore braf yn cerdded ar wlypdiroedd Casnewydd.

**Clwb Criced**

Yn dilyn Mai mor wlyb, llwyddodd y Clwb Criced i chwarae yn erbyn tîm cerddorfa'r BBC. Cawsom noson hwyliog a braf cael bod allan i fwynhau'r haf o'r diwedd! Rydym yn edrych ymlaen nawr at dymor prysur a sawl gêm gyfeillgar.

**Adran Salem**

Mae'r adran sy'n cwrdd ar nos Iau wedi bod yn brysur y tymor hwn yn cynnal nosweithiau amrywiol o driciau syrcas i fwynhau paratoi ar gyfer eisteddfod yr Urdd Eryri. Pob lwc i'r parti llefaru yn Eryri!

**Clwb y Bobl Ifanc**

Cyfarfu clwb y bobl ifanc i fwynhau noson o dvd a sglods a chwarae wii. Llawer iawn o hwyl, ac edrychwn ymlaen at y rhaglen lawn dros y misoedd nesaf.

**Priodas**

Dymuniadau gorau i Meg a Rob Evans

a wnaeth briodi ddoe yn y Borth, Aberystwyth, ar ddiwrnod poetha'r flwyddyn! Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau.

**Bedydd**
Bedyddiwyd Rhys Llywelyn yn ystod y mis, mab Siân a Dave (ŵyr Dafydd Thomas). Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Huw Charles a'r teulu wrth iddo golli ei chwaer yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Delyth Jones wrth golli ei mam.

# Tabernacl

**Cofio Verina Matthews**
Daeth tyrfa luosog o ffrindiau Verina Matthews ynghyd o Lundain i Lanbedr Pont Steffan, ac o Abertawe i Fangor i ddangos eu parch a'i gwerthfawrogiad ohoni hi, ac i gydymdeimlo gyda'i theulu yn eu galar amdani. Bu'n ffyddlon i fywyd yr eglwys yn y Tabernacl ac yn addurn i'w chymdeithas. Cofiwn amdani yn ddidwyll ac yn ddiolchgar, gan obeithio bydd pob coffadwriaeth ohoni yn troi'n ysbrydoliaeth i eraill addoli Duw a gwasanaethu cyd-ddyn.

***Er cof annwyl iawn am Verina***
*Er tewi o'r llais oedd mor annwyl i ni*
*Ni thawodd y gân oedd yn eiddo i ti*
*Robin Gwyndaf*

**Dyweddïad**
Rhannwn lawenydd y ddau deulu pan gyhoeddwyd dyweddïad Iona Hughes a Joe Coles. Maent yn edrych ymlaen at drefnu eu priodas fis Mawrth nesaf.

**Datganiad Organ Jeffrey Howard, Ebrill 14 2012**
Un o ragoriaethau'r organydd medrus hwn oedd ei amrywiaeth sain gydol y datganiad, gan ddangos meistrolaeth anhygoel o bosibiliadau organ y Tabernacl. Hwyrach mai uchafbwynt y datganiad gwahanol, ysgubol o ddoniol hwn oedd yr encore cyntaf, 'Toccata Widor' yn ei gyfanrwydd ysblennydd.

**Cymanfa Dwyrain Morgannwg**
Un o ddiaconiaid y Tabernacl sydd wedi esgyn i'r gadair eleni, sef D. Gwenallt Rees. Mewn cyfarfodydd brynhawn a nos Iau 10 Mai, fe groesawyd Gwenallt i'w swydd newydd o fewn y Gymanfa.

**Sbloets Sadwrn**
Croesawyd sawl teulu o'r newydd i'r Tabernacl, Caerdydd ar brynhawniau Sadwrn dros y misoedd diwethaf wrth iddynt ymuno a'r Sbloets Sadwrn gyda Marc Jon Williams. Cyfle ydyw i blant cynradd a'u teuluoedd i dreulio tua dwy awr yn y festri gan gymeryd rhan mewn cyfres o weithgareddau celf a chrefft sydd a thema Feiblaidd. Mae'r prynhawn yn dechrau gyda chyfle i gymdeithasu dros sudd a bisgedi ac amrywiaeth o gemau. Yna ceir awr o weithgareddau (y rhan fwyaf ohonynt yn golygu torchi llewys a gwneud bach o lanast!), cyn ymgynnull yn y capel i ddangos y gwaith a gyflawnwyd. Daw'r cyfan i ben, yn ôl arferiad Sbloets y Tab, gyda phryd o fwyd.

Mae croeso i ragor o deuluoedd o bob eglwys ymuno. Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar 2 Mehefin a 14 Gorffennaf, rhwng 2:30 a 5:00.



*Liwsi Nel yn dangos ei dwylo ar ôl peintio. Rhybudd – peidiwch â dod yn eich dillad gorau!!*



*Dyma Ardd Eden wedi'i gwneud allan o losin – blasus iawn!!*

# Eglwys Dewi Sant

**Gwasanaeth arbennig**
Cafwyd gwasanaeth arbennig o'r Cymun Bendigaid ddydd Iau Dyrchafael.

**Trafodaeth fywiog**
Cynhaliwyd cyfarfod agored ddiwedd mis Mai er mwyn trafod syniadau ar gyfer adeiladu ar fywyd a chenhadaeth Eglwys Dewi Sant yng nghyd-destun strwythur newydd yr esgobaeth, sef Y Saith Gofod Sanctaidd. Cafwyd trafodaeth fywiog a chynigiwyd llawer o syniadau i'w gweithredu yn y dyfodol.

**Noson Cyrri**
Daeth tua 20 o bobl ynghyd i fwynhau cyrri ganol mis Mai. Trefnwyd y noson gan y pwyllgorau cymdeithasu a chodi arian.

**Llongyfarchiadau**
– i Ray Dyer ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed. Galwodd llawer o'i ffrindiau i'w gweld a chael paned a sgwrs mewn dathliad llwyddiannus a drefnwyd gan Siân, ei merch.
– i Siwan a Paul Seaman ar enedigaeth eu merch fach, Ela Grug
– i Huw Thomas, ar gael ei ethol yn Gynghorydd Sir dros ward Sblot.

# CLWB Y DIWC

On'd yw amser yn hedfan? Mae'n bedair blynedd bellach ers Eisteddfod Caerdydd ac mae un o'r pwyllgorau apêl yn dal i fynd o nerth i nerth o dan yr enw newydd – Clwb y Diwc.

Cynnal digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg yn Nhreganna yw nod Clwb y Diwc a diolch i haelioni Eric a Linda mae tafarn y Duke of Clarence ar Clive Road wedi bod yn gartref cysurus a chroesawgar i ni ers y dechrau.

Y dyddiau 'ma prin yw'r digwyddiadau hynny lle gall sawl cenhedlaeth fwynhau gyda'i gilydd, ond dyna sy'n digwydd yng Nglwb y Diwc. Dyw hi ddim yn anarferol gweld myfyrwyr chweched dosbarth ochr yn ochr â phobl yn agosáu at oedran pensiwn! A cyn y Nadolig fe gafwyd noson deuluol ardderchog gyda Band Melin Gruffydd, Brigyn a llond lle o blant o bob oedran yn mwynhau ar ddiwedd y tymor ysgol.

Mae yna amrywiaeth o ddigwyddiadau bob blwyddyn – o gigs gyda bandiau fel Cowbois Rhos Botwnnog a Sibrydion i gantorion fel Huw M, Elin Fflur a Dafydd Iwan i nosweithau llenyddol a chwisiau. Un o uchafbwyntiau'r tymor hwn oedd noson arbennig ym mis Hydref i ddathlu camp dau o lenorion y brifddinas yn Eisteddfod Wrecsam, sef Manon Rhys a enillodd y Fedal Ryddiaith a Rhys Iorwerth gipiodd y gadair. Rydyn ni hefyd yn ddiolchgar am y nawdd gan Llên Cymru i gynnal noson Dal dy Dafod nôl ym mis Chwefror.

Un o amcanion Clwb y Diwc yw hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal Treganna a thu hwnt felly mae unrhyw elw yn cael ei ddosbarthu i fudiadau sy'n gwneud cais am arian. Ymhlith y rhai sydd wedi derbyn arian gan Glwb y Diwc yn ddiweddar mae Adran yr Urdd, Salem; gardd gymunedol Treganna yn Chapter; a band Melin Gruffydd.



*Cowbois Rhos Botwnnog yn perfformio yng Nghlwb y Diwc. Llun gan Irfon Bennett*

Eleni byddwn ni hefyd yn noddi cystadleuaeth Brwydr y Bandiau yn Eisteddfod Genedlaethol y Fro gyda gwobr ariannol a chyfle i berfformio yng Nglwb y Diwc.

Dyw'r tymor ddim cweit ar ben eto! Nos Wener yr 22ain o Fehefin fe fyddwn yn lansio wythnos o weithgareddau Tafwyl gyda Huw Chiswell a Gildas. Mae tocynnau ar werth yn Caban am £10 ond brysiwch – oherwydd y llynedd gwerthwyd pob un tocyn cyn y noson fawr!

Ac i lansio'r tymor newydd ym mis Medi fe fyddwn ni'n croesawu'r band H, sef nifer o gyn aelodau Edward H Dafis, ynghyd ag Einir Dafydd, ar nos Wener Medi 21ain. Unwaith eto bydd tocynnau ar werth yn Caban.

Mae holl fanylion digwyddiadau Clwb y Diwc ar ein tudalen Facebook – ynghyd â rhai lluniau gwych o ddigwyddiadau'r gorffennol gan Irfon Bennett. Gallwch chi hefyd ein dilyn ar Trydar (Twitter) sef @ClwbyDiwc ac os hoffech fod ar y rhestr ebost anfonwch air at Glenys Llewelyn glenys.llewelyn@wales.gov.uk neu glenys.llewelyn@sky.com

## Rhaglen Datganiadau Organ 'Y Tad' Willis

Sefydlwyd cwmni organ bib Henry Willis & Sons yn Lerpwl yn 1845, a rhedwyd y cwmni gan bum cenhedlaeth o'r teulu tan 1997. Mae'r cwmni yn dal i fynd.

Adnabyddwyd sefydlydd y cwmni, Henry Willis, fel 'Y Tad' Willis oherwydd ei gyfraniad i faes adeiladu organau, ac i wahaniaethu wrth y Willises eraill, iau, oedd yn gweithio i'r cwmni. Willis oedd y prif wneuthurwyr organau yn oes Fictoria, ac yn ystod y Chwyldro Diwydiannol gosodwyd organau Willis mewn nifer o neuaddau tref ac eglwysi ledled Prydain.

Adeiladwyd yr organ hwn gan 'Y Tad' Henry Willis ym 1887. Mae'n un o ddau offeryn a adeiladwyd ganddo yng Nghaerdydd. Adeiladwyd y llall ym 1894 ac fe'i gwelir yn Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr.

Mae 2012 yn flwyddyn dathlu 125 mlwyddiant organ 'Y Tad' Willis yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd. I nodi'r achlysur trefnwyd cyfres o gyfarfodydd a datganiadau ar yr organ arbennig hwn yn ystod y flwyddyn. Dyma'r rhaglen o hyn i fis Awst.

**Dydd Sadwrn 23 Mehefin: Er Clod i'r 'Tad' Willis**
6.45 p.m.: cyflwyniad.
7.30 p.m.: datganiad organ gan Huw Tregelles Williams, Abertawe. Mynediad: £10* yn cynnwys lluniaeth.


**Dydd Sul 8 Gorffennaf: Dathlu a Diolch**
10.30 a.m.: Cymun Bendigaid ar Gân gyda Phregethwr Gwâdd – Yr Hybarch Randolph Thomas, Archddiacon Aberhonddu.
6.00 p.m.: Hwyrol Weddi Gorawl.

**Dydd Sadwrn 21 Gorffennaf:**
**Y Prif Ddatganiad Dathlu**
7.30 p.m.
Organydd: John Scott, Eglwys Sant Thomas, Fifth Avenue, Efrog Newydd, UDA. Mynediad: £10*

**Dydd Gwener 24 Awst: Datganiad Awr Ginio**
1.15–2.00 p.m.
Organydd: David Geoffrey Thomas, Cadeirlan Llandaf.
Mynediad am ddim/casgliad ymadael.

*Tocynnau gan Rhys Jones, Warden yr Eglwys, 19 Llantrisant Rise, Caerdydd CF5 2PG
Ffôn 029 2056 3834 neu 077 94 897328
Ebost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Gyrrwch amlen wedi ei chyfeirio a'i stampio gyda siec yn daladwy i Eglwys Dewi Sant.

# DINESAIR Rhif 123



**Ar Draws**

1. Pe cawn i ia wedi dadmer i fwyta (7)
5. Diffyg Llewelyn yn y coed (5)
8. Y crwt yn dechrau meddwl am bethau (3)
9. I fyny i'r mesur mae'r ffrwd ym mhridd Ffrainc (2, 7)
10. Gweithredoedd Aelod Cynulliad a fydd yn dawel (5)
12. Cesair yn gadael cant yn llesg rywsut (7)
13. Galw am storm anwadal (6)
15. Diana fach yn drysu deall y praidd (6)
18. Chwilio dan yr wyneb am lysiau o ran o Bogotá (7)
19. Gwasger y cnwd i'r sach (5)
20. Darfod Arglwydd y mis (9)
21. Beth yw lleoliad yr ymbil? (3)
22. 'Fel ewyn ton a dyr ar draethell unig
 Fel cân y gwynt lle nad oes ___ a glyw' (W.W.) (5)
23. 'Rwy'n _____ gweld ei degwch Ef,
 Sy uwch popeth is y rhod' (W.W.) (7)

**I Lawr**

1. Iaith sy'n cymryd y camre gorau cyntaf (7)
2. Codi partner Bill i beidio bod yn rhywun (3)
3. Sgramblo'r wy aur a'i wyntyllu (5)
4. Amheus newid sain côr di-galon. (6)
5. Cen wyf i, yn rhoi enw i'r teulu (7)
6. Gorchudd o flaen cyrraedd ieuenctid (9)
7. Gŵyl fer? (5)
11. Trosglwyddo o un lle i'r llall (9)
14. Mae rhywbeth ffals ym mhiano Nesta (7)
16. Man yn y coed i Llewelyn draddodi araith (7)
17. Gwneud busnes allan o ddechrau newydd i'r teulu (6)
18. Mae blaen yr offer yn siarp! (5)
19. Siawns bod mewn crys fel Dei ar yn ail (5)
21. Baich yw cywasgu'r pwdin (3)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Gorffennaf.

**Enillydd Croesair Rhif 121 -**

**L. Roberts Llanishen**

**Atebion Rhif 121**

**Ar Draws** – 3. Clymblaid; 6. Mwdwl; 7. Annigonol; 8. Ciconia; 11. Elyrch; 12. Undod; 14. Estyn; 15. Galw eto; 18. Eglwyswrw; 19. Lliwio; 20. Gogoniant.

**I Lawr** – 1. Amgaeedig; 2. Edrych yn ôl; 3. Clafychu; 4. Meini; 5. Ifori; 8. Cadno; 9. Nantycaws; 10. Alun Mabon; 13. Deg swllt; 16. Ar glo; 17. Tesni.

# Camau cain i gyfarch canol ha' – Gŵyl Ifan

Camwch yn gain at ganol ha' eleni trwy ymuno â hwyl a hoi Gŵyl Ifan yng Nghaerdydd 15–17 Mehefin. Bydd Dawnswyr gwerin o bob cwr o Gymru yn cyfarfod i ddawnsio a diddanu o gwmpas y pawl ha', a thimau dawnsio Meskajou o Lydaw a La Picouline o ardal Dauphine, yr Alpau yn teithio i Gymru er mwyn ymuno a'r sbri.

Bydd y dawnswyr a'r cerddorion lu yn cyfarfod am 8 o'r gloch nos Wener 15 Mehefin am Dwmpath yng Ngwesty'r Angel ac mae croeso mawr i chi ymuno â nhw i ddawnsio i gerddoriaeth gan Yr Hennessys ac i wylio'r camau cain. Pris y tocynnau yw £7 wrth y drws.

Yna fore Sadwrn, bydd y grwpiau dawns yn eu gwisgoedd lliwgar yn gorymdeithio â'r Pawl Haf ar hyd Stryd y Castell ac i fyny Rhodfa'r Brenin at Lawnt Neuadd y Ddinas lle byddant yn codi'r pawl, gafael yn y rhubanau a phlethu stepiau a rhubanau lliw.

Wedi hynny am hanner dydd, bydd arddangosiad o ddawns Gwerin yn cael ei gynnal yng nghyntedd yr Amgueddfa Genedlaethol. Mae hwn, fel gweddill y dydd yn rhad ac am ddim. Am 12.30 y pnawn bydd grŵp arall yn arddangos eu stepiau ac annog gwylwyr i ymuno a'r troelli a'r twmpath yn ardal y Lanfa, Canolfan Mileniwm Cymru. Bydd y dawnsio yma'n parhau trwy'r prynhawn.

Bydd y grwpiau yn ailymgynnull tua 4.30 y pnawn ar Lawnt Neuadd y Ddinas i gyd-ddawnsio, tynnu'r Pawl Ha' i lawr a wedyn gorymdeithio nol i Westy'r Angel.

Ceir rhagor o fanylion ac amserlen lawn ar wefan Gŵyl Ifan www.gwylifan.org. Dilynwch yr Wyl ar facebook www.facebook.com/pages/Gŵyl-Ifan a Twitter @Gwyl_Ifan

***Angharad Wynne***

# Calendr y Dinesydd • Mehefin-Gorffennaf

**Mawrth, 12 Mehefin**
Merched y Wawr Caerdydd. Rhys Iorwerth, enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011, yn trafod ei gerdd arobryn, 'Clawdd Terfyn', yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30 y nos.

**Mercher, 13 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Llun ar wal fy nghartref', gan aelodau'r Aelwyd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 y pnawn.

**Iau, 14 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Moeseg mewn Meddygaeth'. Sgwrs gan Dr Dai Lloyd, yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 y nos.

**Sadwrn, 16 Mehefin**
Cymdeithas y Beibl. Bore coffi yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, o 10.00 tan 12.00 o'r gloch.

**Llun, 18 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Y Cyfarfod Blynyddol, ac yna noson yng nghwmni'r awdur Rhys Evans, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 y nos.

**Gwener, 22 Mehefin – Gwener, 29 Mehefin**
TAFWYL. Am fanylion pellach gweler www.tafwyl.org/llyfryn-tafwyl-2012

**Gwener, 22 Mehefin**
Digwyddiad cyntaf Tafwyl 2012. Huw Chiswell a Gildas yng Nghlwb y Diwc, y Duke of Clarence, Treganna, am 8.00 y nos. Tocynnau: £10 o siop Caban.

**Sadwrn, 23 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd Tŷ Hafan.

**Sadwrn, 23 Mehefin**
Ffair Tafwyl yng Nghastell Caerdydd rhwng 12.00 ac 8.00 y nos. Manylion pellach: www.tafwyl.org/llyfryn-tafwyl-2012

**Sadwrn 23 Mehefin**
Dathliadau 125 mlwyddiant Organ Eglwys Dewi Sant. Cyflwyniad 'Er Clod i'r "Tad" Willis' a Datganiad Organ gan Huw Tregelles Williams, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 6.45 y nos, gyda lluniaeth i ddilyn. Mynediad: £10. Tocynnau gan Rhys Jones, Warden yr Eglwys (Ffôn: 029-2056-3834 neu 07794-897328; e-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com).

**Llun, 25 Mehefin**
Beirdd yn y Bar. Noson yng nghwmni rhai o feirdd y ddinas, gan gynnwys Rhys Iorwerth, Llŷr Gwyn Lewis ac Osian Rhys Jones, ar y thema 'Bywyd Caerdydd'. Yn y Mochyn Du, Clos Sophia, am 8.00 y nos. Mynediad: £2. Trefnir y digwyddiad gan Fenter Caerdydd yn rhan o Dafwyl.

**Mercher, 27 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Flynyddol.

**Mercher, 27 Mehefin**
Helfa drysor ar droed o gwmpas pen dwyreiniol canol dinas Caerdydd, yn dechrau am 6.30 y nos. Cliwiau ar ffurf rhigymau. Yn rhad ac am ddim. Trefnir y digwyddiad gan Gymdeithas Carnhuanawc yn rhan o Dafwyl. Manylion pellach: nans.couch@talk21.com; www.carnhuanawc.org

**Iau, 28 Mehefin**
Panel trafod Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch (yn rhan o Dafwyl). Y pwnc: 'Mae llwyddiant economi Cymru yn dibynnu ar Gaerdydd'. Cadeirydd: Martin Rhisiart (Prifysgol Morgannwg). Lleoliad: Holiday Inn, Heol y Castell, CF10 1XD, am 6.00 y nos. Manylion pellach: Blod@Blodjonespr.co.uk

**Gwener, 29 Mehefin**
Cystadleuaeth golff i barau. Lleoliad: Clwb Golff Radur, Ffordd Drysgol, Radur, CF15 8BS. Parau i gychwyn rhwng 4.30 a 5.30 y nos. Trefnir y digwyddiad gan Gymdeithas Golff y Ddinas yn rhan o Dafwyl. Manylion pellach: Wyn Mears (wyn.mears@virgin.net).

**Sul, 8 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Emyr Roberts. Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah, Rhiwbina, am 8.00 y nos.

**Gwener, 13 Gorffennaf**
Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd yn perfformio'r ddrama gerdd, *'Sneb yn Becso Dam*, yn seiliedig ar record hir Edward H. Dafis, yn Sherman Cymru am 2.00 y nos a 7.30 y nos. Manylion pellach: 029-2064-6900.

**Sadwrn, 14 Gorffennaf**
Cynhadledd Undydd ar yr Anterliwt, rhwng 10.15 y bore a 4.00 y pnawn yn Neuadd Oakdale, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Bydd darlithwyr, cantorion ac actorion yn dehongli hanes yr anterliwt yng Nghymru yn y digwyddiad hwn sy'n agored i bawb. Siaradwyr: Dr Jerry Hunter, Dr Rhiannon Ifans, Dr Ffion Mair Jones a Dr Cynfael Lake. Yn ogystal, bydd actorion dan hyfforddiant Ceri Elen Morris o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn cyflwyno detholiad o olygfeydd a fydd yn dod â hwyl a direidi'r dramâu gwerin hyn yn fyw drachefn. Trefnir y gynhadledd gan Adran Diwylliant y 18fed Ganrif a'r 19eg Ganrif ac Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Cymdeithas Cynfyfyrwyr Prifysgol Cymru gyda chefnogaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: a.c.lake@abertawe.ac.uk

**Sadwrn, 14 Gorffennaf**
Noson ola'r tymor yng Nghlwb Gwawr Caerdydd i lawr yn yr Ŵyl Fwyd ym Mae Caerdydd am 8.00 y nos. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

**Sadwrn 21 Gorffennaf**
Dathliadau 125 mlwyddiant Organ Eglwys Dewi Sant. Prif Ddatganiad y Dathlu, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30 y nos. Organydd: John Scott (Organydd Eglwys St Thomas, Fifth Avenue, Efrog Newydd). Mynediad: £10. Tocynnau gan Rhys Jones, Warden yr Eglwys (Ffôn: 029-2056-3834 neu 07794-897328; e-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com). Croeso cynnes i bawb.

**Iau 30 Awst – Llun 3 Medi**
Taith Flynyddol Cymdeithas Carnhuanawc: 'Y Llwybr i'r Ynysoedd'. Yn ymweld ag Inverary, Oban, Glencoe, Fort William, Glenfinnan ac ynysoedd Mull, Iona a Skye. Manylion pellach: Keith Bush (07711-551347; keith.bush1@btinternet.com).

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# Fiona a Zachary

Bydd sawl un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn gyfarwydd â'r cerddor dawnus Fiona Bennett, a fu'n ddisgybl yn ysgolion Bryntaf a Rhydfelen cyn gweithio fel cerddor llwyddiannus yn perfformio dros y wlad i gyd. Bellach mae Fiona yn fam i ddau o fechgyn, Dominic a Zachary. Mae Dominic mewn ysgol breswyl, ond mae Zachary yn byw adref. Mae Zachary ar y spectrwm awtistig ac mae angen help ychwanegol arno gyda'i waith academaidd a bywyd yn gyffredinol. Mae Fiona yn ystyried y bechgyn yn fendith, a gallwch ddarllen rhagor am eu hanes diddorol a difyr ar y we fan hyn: www.meandmyzachary.posterous.com.



*Fiona Bennett gyda'i mab Zachary*

Mae Fiona wedi rhyddhau CD newydd yn ddiweddar o'r enw *A Country Suite*. Dymunwn bob lwc iddi hi a'r plant yn y dyfodol!


mudiad meithrin

yn cyflwyno / present

*Y Brodyr Gregory :*

Y Tywydd a'r Tymhorau

**Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan**
**Museum of Welsh Life St. Fagan**
**Dydd Llun/Monday**
**18fed o Fehefin / *18th June***

**Am fwy o fanylion**
***For more information***
**wyn.williams@meithrin.co.uk**
**0779 294 8429**
**Swyddog Datblygu/*Development Officer***

*Croeso i bawb!*
*A warm Welsh welcome to all!*


# 'Smo Rhiannon yn Becso Dam!

Bydd Rhiannon Williams, disgybl o Ysgol Gyfun Glantaf, yn serennu yn sioe gerdd newydd sbon Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd, *'Sneb yn Becso Dam*, ym mis Gorffennaf. Mae'r sioe wedi'i seilio ar record hir y band poblogaidd o'r 1970au Edward H Dafis.

Mae paratoadau'r bobl ifanc – yn berfformwyr a thechnegwyr – eisoes wedi cychwyn ar ôl iddynt ymgynnull yn Llangrannog dros wyliau'r Pasg. Hanes Lisa Pant Ddu, merch o'r wlad sy'n dyheu am fyw bywyd cyffrous a chyflym y ddinas a geir yn *'Sneb yn Becso Dam*. Ond pan fo Lisa yn gadael ei chynefin, mae'n gweld ochr dywyll y ddinas ac mae pethau'n mynd o chwith iddi.

Bydd y ddrama'n ymweld â theatr Sherman Cymru ar 13 Gorffennaf.



Cast *'Sneb yn Becso Dam* yn Llangrannog




TAFWYL
22 - 29 Mehefin / June 2012

Fel rhan o'n hymrwymiad i hybu'r iaith, mae ND Addysg yn noddi'r babell Ysgolion yn ffair Tafwyl eleni.

Dewch i'n stondin i drafod cyfleoedd gyrfaol cyffroes ym maes addysg Gymraeg.

Ar y stondin fydd gwybodaeth am swyddi hir dymor o fis Medi ac am waith cyflenwi dydd i ddydd (ffordd wych o rwydweithio ach cyflwyno i ystod eang o ysgolion a sicrhau gwaith parhaol).

Yn ddiweddar fe enillom **"Gytundeb Ledled Cymru"** gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu athrawon cyflenwi drwy Gymru gyfan.

Ni yw'r **unig** asiantaeth addysg i ennill y cytundeb hwn.

www.ndteach.co.uk Addysg@new-directions.co.uk www.facebook.com/ndteach

Supply Teachers REC ASCL Association of School and College Leaders NAHT The Association for All School Leaders

# Noson Wobrwyo CRICC 2012

Yn anffodus cynhaliwyd Noson Wobrwyo CRICC ar yr un noson â chinio aduniad y Llewod yn Llundain. O ganlyniad nid oedd ein gwestai o'r Gleision yn medru dod ond roeddem yn ffodus iawn fod Cwins Caerdydd wedi llwyddo i gael Tlws y Goron Driphlyg i'w arddangos. Cafodd aelodau CRICC gyfle i dynnu llun gyda'r tlws. Clywsom fod y Tlws wedi ei yswirio am £80,000 sy'n rhoi syniad o'i werth!

Cyflwynwyd, fel arfer, ddau dlws ym mhob oedran, sef Tlws yr Hyfforddwr a Chwaraewr y Flwyddyn. Dyma restr o'r enillwyr am 2011–12:

| *Carfan* | *Tlws yr Hyfforddwr* | *Chwaraewr y Flwyddyn* |
|---|---|---|
| 7 | Gethin Johnes | Sam Sykes |
| 8 | Tomos Edwards | Louis R. Shugar |
| 9 | Lloyd Dovey | Finley Lovett |
| 10 | Scott Argyle | Elis Harrop-Griffiths |
| 11 | Manon Johnes | Aled Evans |
| 12 | Jonah Sutton | Ben Cabango |
| 13 | Ewan Lynch | Guto John |
| 14 | Ieuan Jones | Steffan Prytherch |



Dyma lun o hyfforddwyr carfan 7 a'r aelodau, oedd yn dod o wyth ysgol wahanol. Coed y Gof, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan, Pencae, Pen-y-Groes, Pwll Coch, Y Wern a'r Berllan Deg.

Yn yr ail lun mae enillydd Chwaraewr y Flwyddyn 7, Sam Sykes o Ysgol y Wern, gydag Owen Jones, un o'r hyfforddwyr, yn dal Tlws y Goron Driphlyg.





Carfan 9 – Lloyd Dovey a Finley Lovett



Carfan 10 – Scott Argyle, Elis Harrop-Griffiths



Carfan 8 – Mike Hall (Hyff.) ; Louis Shugar; Tomos Edwards; Arwyn Jones (Hyff.)

Ar noson wobrwyo CWINS CAERDYDD yr wythnos ganlynol gwelwyd y cysylltiad cryf sydd wedi datblygu rhyngddynt â CRICC ar Faes Diamond.



Yn y llun gwelir o'r chwith i'r dde:
Steffan Elis enillodd chwaraewr y flwyddyn; Andrew Price ('Bing'), prif hyfforddwr Cwins Caerdydd, a ddewiswyd fel Cymeriad y Clwb am y flwyddyn ac Elgan Richards a ddyfarnwyd fel y chwaraewr oedd wedi gwella fwyaf yn ystod y tymor. Mae Steffan ac Elgan yn gyn aelodau CRICC ac mae gan 'Bing' fab sy'n aelod o CRICC.

Roedd yn noson o ddathlu llwyddiant tymor y tîm cyntaf gan fod y CWINS wedi ennill Adran 4 (Dwyrain), Cynghrair Swalec U.R.C. Cafwyd diweddglo cyffrous iawn wrth i'r Cwins drechu Talywain yng ngêm olaf y tymor. Gorffennodd y ddau glwb ar yr un nifer o bwyntiau a'r un nifer o gêmau wedi eu hennill ond roedd y Cwins yn bencampwyr am sgorio mwy o geisiau yn ystod y tymor.

Os am brofi chwarae ar lefel Adran 3 y tymor nesaf mae croeso i chwaraewyr newydd ymuno a chystadlu am le yn y garfan.